

ECO'R WYDDFA

RHIF 378

MEHEFIN 2010

PRIS 50c

Yn y rhifyn hwn:

- Perl yn cuddio yng Ngheunant
- Cyfle i ennill llyfrau
- Cadair Trevelin i'r Teithiwr
- Ysgolion Sul yn Y Bala

PENCAMPWYR CYMRU



Cwpan Cymru – Tim dan 18 oed
Ysgol Brynrefail 8 – Ysgol Tonypanyd 4



Tim dan 13 oed.
Ysgol Brynrefail 11 – Ysgol Cwmtawe 1

Hanes y gemau i gyd ar dudalen 6



Cwpan yr Urdd – Genod dan 13 oed
Ysgol Brynrefail 0 – Ysgol Dyffryn Aman 0



Cwpan yr Urdd – Genod dan 15 oed
Ysgol Brynrefail 3 – Ysgol Pen y Dre 1

BWYDO'R FRENHINES

Ar ei hymweliad diweddar â Chanolfan Busnes Prifysgol Bangor, Castell Caernarfon a Rheilffordd yr Ucheldir, bachgen o Dan y Coed fu'n gyfrifol am baratoi'r fwydlen gogyfer â'r ymweliad brenhinol.

Addysgwyd Marc Roberts yn Ysgol Gynradd Cwm y Glo, Ysgol Brynrefail a cholegau Pencraig a Llandrillo, ble bu'n dilyn cyrsiau coginio, arlwyio, a rheolaeth bwyd. Dechreuodd ar ei yrfa yng Ngwesty Gwêl y Llyn, Llanberis, dan arolygaeth Mr Arthur Rogers a fu'n chef yng Ngwesty'r Adelphi yn Lerpwl. Wedi cwblhau ei ddiploma, cafodd swydd chef yn y Brifysgol ym Mangor a'i ddychafu maes o law yn rheolwr.

Bellach, mae'n Chef Gweithredol Arlwyio Mandolin yn y Ganolfan Rheolaeth yn y Brifysgol, a dyna sut cafodd y fraint o baratoi bwyd ar gyfer yr ymweliad brenhinol – a hynny ar gymeradwyaeth Uchel Siryf Gwynedd.

Ac i'r rhai ohonoch sydd â diddordeb yn yr hyn a blesiodd y gwesteion yn fawr iawn,



dyma'r fwydlen a baratowyd gan Marc.

Cwrs Cyntaf: Terin Porc, Bricyll a Pistachio ar wely o ddail gwyrdd, gyda salsa pinafal a bara crystiog.

Prif Gwrs: Medaliynau o Gig Oen Cymreig ar Fwtrin Rhosmari, gyda Mwtrin Cennin a Chreision Pannas.

Pwddin: gellyg bychain wedi eu potsio mewn gwin port gyda hufen iâ fanila.

Ac yr oedd y llythyr a dderbyniwyd o Balas Buckingham ddeuddydd wedi'r achlysur yn tystio fod pawb wedi mwynhau'r blasusfwd.

ECO'R WYDDFA

RHIF 378

MEHEFIN 2010

Argraffwyd gan Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Erthyglau a newyddion
at ohebwyr pentref neu i**

Penarth
Ffordd yr Orsaf
LLANRUG LL55 4BA

Straeon ac erthyglau ar e-bost i
alwenaowen@gmail.com
neu Tir Iarll, Llandwrog LL54 5TE
neu storiau@ecorwyddfa.co.uk

CADEIRYDD

Y PWYLLGOR GWAITH
Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR

Gwynhaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION

Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt,
Llanberis (870740)
eifionroberts132@btinternet.com

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD BWDELU

Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Sŵn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Flynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS SUL MEHEFIN 20
Os gwelwch yn dda
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU 1 GORFFENNAF
Dyddiad Gosod
Nos SUL 27 MEHEFIN
Sefydliad Coffa Llanrug

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Rhifyn	Dyddiad Copi i Law	Dyddiad Plygu	Ble
Gorffennaf	Mehefin 20	Gorffennaf 1af	Bethel
Awst	-----	-----	-----
Medi	Awst 22	Medi 2il	Llanrug (y wasg yn plygu)
Hydref	Medi 19	Medi 30	Penisarwaun
Tachwedd	Hydref 1	Hydref 28	Llanberis
Rhagfyr	Tachwedd 21	Rhagfyr 2il	Caeathro
Nadolig	Rhagfyr 5	Rhagfyr 16	Ysgol Brynrefail

Llythyrau

COFIS BACH/JAMAN NOSON PRÉMIER FFLM

Nos Sadwrn, 10 Gorffennaf,
5.00 o'r gloch yn Galeri,
Caernarfon

Cyfle i fwynhau doniau plant a
phobl ifanc Ward Peblig,
Caernarfon: ffilmiau wedi'u
hanimeiddio - gwreiddiol
(iawn!) - ac hefyd ffilm fer
newydd wedi'i chreu gan y grŵp
o bobl ifanc sy'n mynd o dan yr
enw Jaman, hynny a bandiau
byw. Peidiwch â cholli'r cyfle
yma i fwynhau a chefnogi y
gweithgareddau artistig hyn!
Dewch yn llw

Tocynnau £2, cysylltwch â
Galeri (01286 685222)

*Diolch am gefnogaeth
Cymunedau'n Gyntaf,
Llywodraeth y Cynulliad, Plant
Mewn Angen, Eglwys Noddfa a
Chronfa Elw Park-Jones.*

CÔR MEIBION DINAS BANGOR

Ar nos Fawrth 27 Ebrill daeth
cynulleidfda dda iawn i Eglwys St
John Llandudno i wrando ar y
Côr yn canu yn y cyntaf o'r nifer
o gyngherddau fydd gan y Côr
yna yn ystod yr haf yn
Llandudno. Cynhaliwyd y
cyngerdd er budd Cymdeithas
Atal Clefyd Siwgr gyda'r Côr yn
rhoi eu gwasanaeth yn gwbl er
budd y gymdeithas. Arweinwyd
y Côr gan James Griffiths gyda
Lowri Roberts Williams yn
cyfeilio. Cafwyd uned gan y
baswr Bob Thomas a hefyd gan
Gareth Hughes ar yr euphonium
gyda James Griffiths yn cyfeilio.
Ar ddydd Sadwrn 1 Mai canodd
y Côr mewn priodas yn Eglwys
Babyddol St Iago, Bangor.
Cafwyd sawl eitem cyn dechrau'r
gwasanaeth ac yn ystod yr
arwyddo. Cafwyd unawd gan
Norman Evans gyda Lowri
Roberts Williams yn cyfeilio.

STORI SYDYN Cyfle i ennill llyfrau gwyh!

Cyfes o lyfrau byr a bachog yw'r
gyfres Stori Sydyn, ac mae'r
llyfrau wedi'u hysgrifennu'n
benodol ar gyfer oedolion sy'n
egin-ddarllenwyr, y sawl sydd
wedi colli'r arfer o ddarllen neu
unrhyw un sy'n chwilio am lyfr
i'w ddarllen yn sydyn.

Menter ar y cyd rhwng Sgiliau
Sylfaenol Cymru a Chyngor
Llyfrau Cymru yw'r gyfres ac fe
gyhoeddwyd pedair cyfrol
newydd eleni. Hanes blwyddyn
lwyddiannus Jamie Roberts,
canolwr tîm rygbi Cymru a
doctor dan hyfforddiant, yn
chwarae rygbi gyda'r Llewod yn
Ne Affrica a geir yn *Jamie: Y
Llew yn Ne Affrica*. Casgliad o jôcs
a storïau doniol y dyfarnwr rygbi
rhyngwladol Nigel Owens yw
cynnwys *Hiwmor Nigel*. Barn y

smyglwr cyffuriau rhyngwladol
Howard Marks ar Gymru a geir
yn *Cymru Howard Marks*, ac mae
cefnogwr tîm pêl-droed
Caerdydd a llais y stadiwm, yr
actor Ali Yassine, yn sôn am ei
fywyd a phêl-droed yn ei
hunangofiant, *Llais yr Adar
Gleision*.

Mae cyfle i ddau ennill set o'r
teitlau diweddaraf yma drwy ateb
cwestiwn syml iawn!

**Pa ddau berson adnabyddus o'r
byd rygbi sydd wedi eu
cynnwys yng nghyfes Stori
Sydyn eleni?**

Anfonwch yr ateb, eich enw a'ch
cyfeiriad at Gadeirydd Pwyllgor
Gwaith yr Eco, Cilgerran, Bethel.
Y ddau enw cyntaf o'r sach fydd
yn ennill y llyfrau.

Cronfa Goffa R. H. Owen

Gwahoddir ceisiadau am GRANTIAU
o'r Gronfa uchod. Ceir y manylion drwy
anfon amlen gyda chyfeiriad a stamp
arno i'r Ysgrifennydd-

John H. Hughes
Tan y Clogwyn Llanberis Gwynedd
LL55 4LF Ffon-(01286) 871562

Y CEISIAU i gyrraedd yr Ysgrifennydd
erbyn AWST 31ain. 2010
Ni ystyrir unrhyw gais a ddaw i law
ar ol y dyddiad cau penodedig



RHODDION

Ymddiheuriad am beidio cynnwys
y rhodd ganlynol y mis diwethaf:

£10.00 gan Catherine
Foulkes, 3 Rhes Bryn, Cwm y
Glo.

£10: Er cof am Griffith
Roberts, Tŷ Gwyn, Llanrug;
Mrs Naomi Griffiths, Hafan
Elan, Llanrug; Nansi Jones,
Meillionydd, Penisarwaun.

£8.50: Mrs Sidebotham,
Stockport; John Evans-
Hughes, Kirby, Muxloe; Ann
William, Oswestry; Gwilym
Ellis, Llandrindod; Arwyn
Thomas, Stourbridge;
Goronwy Owen, Porthcawl.

£5.00: Mrs Mary Jones,
Llwyn Afon, Waunfawr; Mrs
Marjorie Roberts, Bod
Gwilym Cwm-y-glo; Vera
Williams, Llanrug; Betty
Pritchard, 3 Llys y Gwynt,
Penisarwaun;

£3.50: Elizabeth Williams,
Llwyndyrus.

Dilys

Trin Gwallt Teithiol

Trin gwallt merched,
dynion a phlant
yn eich cartref



Symudol:

07919 897898

Ffôn:

(01286) 871869

Darren Jones

Contractiwr Teilsio

CEGINAU

**YSTAFELLOEDD
YMOLCHI**

A LLORIAU

9 Rhos Rug
Llanrug Caernarfon

(01286) 669090

Mobile-07894818783

BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD

Nodir gan
Llywodraeth
Cynulliad Cymru

www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

PERL YN CUDDIO YNG NGHEUNANT: ORIEL HAFOD

Ar waelod gelltydd y Ceunant mae lôn fach gul yn arwain am Bantafon a Phontrug. Led cae neu ddau o'r lôn mae Plas Hafod, yn swatio ar ddiwedd dreif goediog, ac yno, mewn hen feudy a sgubor wedi eu hadnewyddu mae Oriel Hafod, eiddo Stephen Kingston a'i gymar Pat. Er fod y ddau wedi byw yma ers bron i ddeng mlynedd, yn ddiweddar iawn y gwiredwyd eu breuddwyd o agor oriel ddarluniau.

Daw Stephen yn wreiddiol o Lanilltud Fawr a Pat o Forfa Nefyn. Mae Stephen yn hanu o deulu creadigol, gyda'i fam, Angela, wedi bod yn gadeirydd Cymdeithas Darluniau Dyfrlliw Cymreig am flynyddoedd, ac wedi arddangos ei gwaith yn helaeth led-led Cymru. Mae ei chwaer, Sasha, wedi arbenigo mewn tecstilïau, ac mae gwaith y ddwy yn cael ei ddangos yn Oriel Hafod. Mae Stephen hefyd yn arlunydd, wedi cymhwyso ei hun yng Ngholeg Goldsmith, Llundain ac yna ym Mhrifysgol Bryste. Mae wedi addasu un rhan o'r adeilad yn stiwdio iddo'i hun. Dilynodd Pat gwrs ym Mhrifysgol Lerpwl, ac yn yr Oriel gwelir enghreifftiau o'r gwaith a wna

gyda deunydd cwiltiau Cymreig.

Yn ogystal â bod yn oriel deuluol, mae gwaith crefftwyr eraill o ogledd Cymru yn cael ei arddangos yno hefyd. Mae cerfluniau o waith Mary Wells, Machynlleth, crochenwaith o Rhuthun a Fflint, a gwaith cerameg. Mae'n bosibl cael cipolwg ar yr hyn sydd i'w weld yn Oriel Hafod drwy ymweld â safle www.orielhafod.com neu www.stephenkingston.com.

Ar hyn o bryd mae Stephen yn brysur yn tirlunio y gerddi o amgylch y plasdy a'r oriel, a bydd cerflunwaith yn cael ei arddangos yn y gerddi gorffenedig. Pat ei hun sydd wedi cynllunio y gerddi, ond prosiect hir-dymor yw hwn ar hyn o bryd.

Mae'r oriel ar agor - yn rhad ac am ddim - bob dydd Iau a dydd Gwener rhwng deg y bore a thri y pŵn, ac ar ddyddiau Sadwrn rhwng deg a phump. Ond mae croeso i unrhyw un sydd am ymweld â'r Oriel gysylltu ar 01286 872795 i wneud trefniadau tu allan i'r oriau agor arferol. Mae'n ffridiad hefyd i baratoi paned a chacen maes o law. Dyna esgus penigamp i drigolion ardaloedd



Perchnogion yr Oriel gyda rhan o'r cynnyrch sy'n cael ei arddangos.

Llanrug, Tan y Coed, Ceunant a'r Waunfawr i drefnu taith

gerdded a chael hoe yn Oriel Hafod ar y ffordd!

Pencampwr o Wynedd yn cyrraedd yr uchelfannau



Mae gwŷr o Wynedd yn hawlio ei le ymysg cewri chwaraeon ac yn llawn gobaith o serennu yn y gemau Paraolympaidd nesaf.

Chwaraewr Boccia yw Ashley LeCras, 32 oed, o Lanrug. Y mae wedi cyrraedd yr ail safle yn rhengoedd y gêm dosbarth BC4 yng Nghymru wedi dod yn ail yn y bencampwriaeth genedlaethol a gynhaliwyd yng Ngerddi Soffia yng Nghaerdydd ar Ebrill 11.

Gêm debyg i bowlïo neu boules Ffrengig ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn yw Boccia. Fe'i chwaraeir ar gwrth badminton a'i nod yw taflu neu yrru set o beli lliw yn agosach na

pheli ei gwrthwynebwr i belen wen neu'r jac.

Mae Ashley yn aelod o dîm Boccia Dreigiau CIL ym Mhorthmadog a bydd nawr yn cael y cyfle i gymryd rhan yn y gystadleuaeth Brydeinig yn yr Alban yn yr hydref. Mae'n gobeithio cael ei dderbyn fel aelod o'r academi Gymreig ac i garfan Cymru a'i obaith tymor hir yw cystadlu yng ngemau Paraolympaidd Llundain 2012.

Mae ei gyd-chwaraewr yn Nreigiau CIL, Robert Jones, hefyd wedi gwneud yn rhagorol ac wedi cyrraedd y bedwerydd safle yn rhengoedd Cymru.

Dyweddodd Ashley ei fod wrth ei fodd gyda'i lwyddiant. Meddai: 'Hoffwn ddiolch Mark Roberts sef prif hyfforddwr Dreigiau CIL am fy helpu i ddatblygu ac i lwyddo fel hyn. Hoffwn hefyd ddiolch fy chwaer Hilda Duckworth am ei chefnogaeth a'i chymorth gyda thrafnidiaeth.'

Yn ôl Marcus Politis, Swyddog Datblygu Chwaraeon Anabledd Cyngor Gwynedd, mae hyn yn destun balchder i bawb sy'n ymwneud a chwaraeon anabledd yng Ngwynedd.

Meddai: 'Dreigiau CIL oedd y tîm chwaraeon anabledd cyntaf i ni ei sefydlu yng

Ngwynedd chwe blynedd yn ôl ac erbyn heddiw mae 30 o gyfleon chwaraeon anabledd yn y sir.

'Mae llwyddiant Ashley yn dangos yr hyn medrwn ei gyflawni - fe ymaelododd gyda chlwb cyffredin ar y lefel isaf ac mae wedi gweithio ei ffordd i fyny i gynrychioli Cymru.'

Oherwydd ei lwyddiant bydd Ashley yn derbyn Cerdyn Aur Gogledd Cymru fydd yn gadael iddo gael mynediad at adnoddau hyfforddi yn rhad ac am ddim ym mhob rhan o'r

rhanbarth. Bydd hefyd yn derbyn Grant Chwaraeon Arfon.

Mae Dreigiau CIL yn cyfarfod pob dydd Iau yng Nghanolfan Hamdden Glaslyn. Mae'r clwb yn awyddus i weld chwaraewyr newydd, dylai unrhyw un sydd â diddordeb ymuno - neu sydd â diddordeb mewn unrhyw chwaraeon anabledd - gysylltu â Marcus Politis, Swyddog Datblygu Chwaraeon Anabledd Cyngor Gwynedd ar 01758 704109 neu 07766 505320.

WAVELL'S

Bryn ac Angela Williams

London House, LLANRUG

Ffôn:


(01286) 673574

PEN CIGYDDION Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus,
Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!



GWYNANT PIERCE

Cynrychion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG

Ffôn: (01286) 674183
(0589) 899901

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

GENEDIGAETH.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Claudia ac Aarron, Uwchlaw'r Ffynnon, ar enedigaeth mab bach, Cafan Glyn.

LLONGYFARCHIADAU i Veronica a Ken, Glanbogelyn, ar achlysur dathlu eu Priodas Ruddem.

GWELLHAD BUAN i Mrs Megan Olwen Jones, 21 Dôl Afon, ar ôl syrthio a thorri ei garddwrn.

ARHOLIADAU. Dymuniadau gorau i blant y pentref sydd yn sefyll arholiadau yr wythnos nesaf yn yr ysgol ac yn y colegau.

DIOLCHIADAU. Fe ddymuna Marjorie Roberts, Bod Gwilym, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau, blodau, arian, galwadau ffôn ac ymwelwyr ac am yr holl gefnogaeth a gafodd gan bawb.

Diolch hefyd i'r meddygon a'r nyrsys yn wardiau H.D.U ac Enlli am yr holl ofal a gafodd tra yr oedd yn cael llawdriniaeth yn yr ysbyty ym Mangor. Hoffai hefyd ddiolch i'r staff Gofal Cartref am bob peth ar ôl dod adref o'r ysbyty. Diolch yn fawr iawn i bawb unwaith eto.

YSGOL GYMUNED. Rydym wedi cael cyfnod prysur o weithgareddau yn ddiweddar.

Cafodd ddosbarth Peris ymweliad gan rhywun arbennig un bore Llun, sef Cas Meurig, mam Ceinwen a Wil. Daeth draw i gynnal sesiwn o 'Chwedl a Chân' a chafodd y plant gyfle i wrando ar y ffidl a'r crwth. Roedd pawb wedi mwynhau a rhoddodd yr ymweliad flas i ni o'r hwiangerddi a chwedlau traddodiadol. Felly yn fuan wedyn aeth y dosbarth draw i Ganolfan Cae'r Gors am brynawn o ganu hwiangerddi yng nghwmni Mrs. Eryl

Thomas.

Cafodd y dosbarth gyfle i ail ymweld â Chae'r Gors i gymryd rhan mewn gweithdy 'Diwrnod Golchi'. Roeddynt wedi mwynhau clywed am Rwdlan yn golchi dillad mewn twb tra yn yr ysgol ond wedi cael braw o weld pa mor galed oedd y gwaith i famau yn y gorffennol!

Bu plant yr adran iau yn brysur iawn hefyd. Daeth cyfnod ymweliadau y Dr. Dewi Ellis Jones i ben gyda'r plant yn perfformio eu cyfansoddiadau un prynhawn Gwener.

Mae'r Clwb Garddio, dan ofal rhieni, wedi ei sefydlu a bellach mae pum sach o lysiau wedi eu plannu ar fuarth yr ysgol. Rydym yn edrych ymlaen i flas cynnyrch y plant!

Aeth disgyblion bl. 5 a 6 draw i Ysgol Gymuned Benisarwaun yn ddiweddar i weld cyflwyniad gan Gwmni Fran Wên ar fwlio. Ein diolch i staff a phlant yr ysgol am eu croeso cynnes.

Cafwyd bore buddiol iawn yn nghwmni yr heddlu lleol a 'Cadw Cymru'n Daclus' yn casglu ysbwriel yn y pentref. Daeth nifer o ffrindiau a rhieni ynghyd gyda'r plant i ymateb i alwad y gymuned am gymorth i ymateb i'r broblem ysbwriel yng Nghwm y Glo. Casglwyd dros 30 bag o ysbwriel mewn cyfnod byr - agoriad llygaid i'r plant. Ein gobaith mawr yw bydd ein disgyblion yn llawer mwy ymwybodol a chydwybodol wrth gael gwared o ysbwriel. Diolch yn fawr iawn i bawb am eu cefnogaeth i'r ymgyrch.

Cafodd disgyblion dosbarth Marchlyn gyfle i gystadlu yng ngŵyl gyfeiriannu y dalgylch yn ddiweddar. Roedd pawb wedi cael y profiad o fwynhau llwyddiant!

Bydd Miss Williams yn mynd â nifer o blant yr adran




Mae'r llun yn dangos plant yr ysgol ar ôl cwblhau'r casglu ysbwriel gyda PCSO Michael Couling a Mr. Lee Oliver o 'Cadw Cymru'n Daclus'.

iau draw i'r Ganolfan Hamdden cyn diwedd y mis i gystadlu yng ngala nofio ysgolion Arfon. Pob lwc i chi, blant!

Mae 'Cyfeillion a Rhieni' yr

ysgol yn brysur baratoi ar gyfer ein Ffair Haf ar Fehefin 15fed. Maent yn awyddus am gyfraniadau a chymorth felly cysylltwch a hwy drwy'r ysgol, os gwelwch yn dda.

CODI ARIAN ER COF



Eleni eto, mae Malcolm Pitts o Lanrug wedi codi arian er cof am ei wraig Yvonne a'i dad Bill. Mae'n cyflwyno'r arian i Ward Alaw Ysbyty Gwynedd a Meddygfa Llanberis a fu'n gofalu amdanynt. Fe nofiodd Malcolm 2,500metr ym Mhlas Menai a chafodd gwmni Darren Brame, un o weithwyr Plas Menai, i feicio dros 50milltir. Methodd Malcolm â chwblhau tasgau llynedd gan fod ei gefn a'i bengliniau'n rhy boenus. Mae'n dal i ddiodeff effaith y ddamwain fawr a gafodd ym 1982. Er y golled fawr i Malcolm, Mark a Fiona, mae'n dal i gael ei ysbrydoli a'i gymell gan y cariad a fu rhwng Yvonne ac yntau, a'r cariad hwnnw sy'n dal i'w gynnal.

Caffi Caban

ar Agor

9 y bore tan 4 y pñawn - 7 diwrnod yr wythnos

Cwmni cydweithredol di-elw yw Caban Cyf. wedi ei sefydlu i hwyluso datblygiad economaidd cefn gwlad.

Nod Caban Cyf. yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau refeniw (Caffi Trwyddedig, Ystafell Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffu a Lungopio) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (Unedau Busnes Caban) er mwyn creu cyfleoedd gwaith.

Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail

www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org
01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)

Caban

PADARN LAKE

LLANBERIS (01286) 870260



**PRYDAU DA AR GAEL
POB DYDD**

**CANOL DYDD
A GYDA'R NOS**

**Cinio Dydd Sul (CARVERY) rhwng
12.30 a 3.00 o'r gloch**

TE BACH POB DYDD RHWNG 2.30 a 5.00

Cyfleusterau- Bartion • Priodasau ac Achlysuron Arbennig

Ysgolion Sul Dyffryn Peris yng Ngholeg y Bala

Roedd plant ysgolion Sul Dyffryn Peris yn llenwi Coleg y Bala fwrw'r Sul, Ebrill 23-25; a chafwyd amser braf iawn yno unwaith eto. Mae'r ymweliad â'r Bala yn un o uchafbwyntiau ein hysgolion Sul ers blynnyddoedd lawer erbyn hyn.

Teithiodd llond bws o blant Ysgol Sul Capel Coch, Llanberis; Ysgol Sul Unedig Deiniolen; ac Ysgol Sul Capel y Rhos, Llanrug, i'r Bala bawn Gwener. A chawsant groeso cynnes yno o nos Wener hyd amser cinio ddydd Sul.

Nia Williams, Pwllheli, oedd yn arwain y cwrs, ac roedd Zoe, Gwilym a Steffan o'r Coleg yn ei helpu. Gwerthfawrogir y croeso a'r gofal a gafodd y plant eleni eto. 'Colli ac ennill' oedd thema'r cwrs y tro hwn, ac roedd y cyfan wedi ei seilio ar hanesion Iesu'n cerdded ar y môr; iachau gwas y canwriad; Mair a Martha; a Sathus. Cafwyd digon o hwyl wrth ddysgu trwy wrando a chwarae a gwaith llaw.

Treuliodd y pŵn Sadwrn ym mhwyll nofio'r dref, ac roedd digon o amser sbâr i sgwrsio a chwarae. Cafwyd tywydd ardderchog, a digon o hwyl; a



doedd dim trafferth o gwbl efo'r un o'r plant. O feddwl am thema'r cwrs, roedd pawb a fu yno yn sicr ar ei ennill, a phawb nad oedd yno ar eu colled.

Mae'n brofiad arbennig i'r plant; ac yn gyfle ardderchog iddynt i ddysgu am Iesu yng nghwmni criw o ffrindiau.

Roedd yn gyfle hefyd i blant hynaf y tair Ysgol Sul ddod i adnabod plant y byddant cyn bo hir yn eu cyfarfod yn yr ysgol uwchradd leol, Ysgol Brynrefail, Llanrug. Gobeithio y byddant o gefn i'w gilydd yno; ac y bydd modd iddynt fwynhau gweithgareddau Cristnogol

gyda'i gilydd eto. Roedd Andrew Settattree, gweithiwr ieuencid Efe yno gyda'r plant, ynghyd â Non Llwyd, Rhian Whiteside Thomas, Gwenno Williams a'r Parchg John Pritchard.

Rydym eisoes yn edrych ymlaen at fynd i'r Bala eto'r flwyddyn nesaf.

Gemau Giamocs Cynllun 'EFE'

Cynhaliwyd noson 'Gemau Giamocs' gan Gynllun Efe yn y Ganolfan yn Llanberis nos Wener, Mai 7. Gemau ysgafn, ar ddull Gemau Heb Ffiniau neu *It's a Knockout* oedd y rhain, ar gyfer ieuencid 12-15 oed.

Daeth 28 o ieuencid yno, o Lanberis a Llanrug yn bennaf. Rhannwyd hwy'n dri thîm, a chafwyd cystadlu brwd a hwyliog. Erbyn diwedd y nos roedd tîm yr hogiau ac un o dimau'r genod yn gydradd gyntaf, gyda thîm arall y genod yn agos iawn atynt.

Roedd rhai o'r bobl ifanc heb fod yn yr un o weithgareddau Efe o'r blaen. Cafwyd cyfle i'w gwahodd i'r clybiau sy'n cyfarfod yn rheolaidd; a'r gobaith yw y gwelwn rai ohonynt yn ymuno â'r gweithgarwch hwnnw, megis CIC Llanberis bob nos Sul a CIC Llanrug bob yn ail nos Fawrth.

'Wnewch chi gynnal un arall o'r rhain i ni plis,' oedd cwestiwn un o'r ieuencid sy'n dod yn gyson i CIC. Roedd yn braf iawn gweld pawb yn mwynhau hwyl y noson, a'u clywed yn galw am ragor o weithgareddau. Trefnwyd y

noson gan Andrew Settattree; a chafodd help ar y noson gan Gwenno a Dafydd Pritchard, Susan Williams, Llew Williams, Graham Thomas a John Pritchard.

Bwriedir cynnal noson debyg i Ysgolion Sul dalgylch Efe nos Wener, Mehefin 18. Cynhelir hon eto yn Y Ganolfan yn Llanberis.

CERIS JONES
Teglan, Stâd Talybont

LLANRUG
677362
neu symudol
07979
620996

- Trwsio ceir a faniau
- Gwaith MOT
- Mecanic profiadol iawn
- Prisiau cystadleuol

CREU GARDD LECHI NEWYDD YN Y GILFACH DDU



Agorwyd atyniad newydd sbon yn Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis. Bydd yr ardd lechi newydd yn canolbwynt ar gyfer bywyd gwyllt yn yr amgueddfa a bydd hefyd yn lle braf i eistedd a mwynhau'r safle.

ARVONIA CONCEPT RISM cpt

- Gwyliau Prydeinig a Chyfandirol.
- Rhaglen Triplau Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer logi preifat.



- Adran teithiau grwp - yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatra digwyddiadau

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Ffôn: 01286-675175 • Ffacs: 01286-671126

E-bost: info@arvonias.co.uk • Gwefan: www.arvonias.co.uk

YSGOL BRYNREFAIL

Cwpan Cymru dan 13

Sul 9fed Mai 2010

Park Hall, Croesoswallt

Ysgol Brynrefail 11

Ysgol Cwmtawe 1

O'r diwedd, ac wedi hir ymaros, fe gamodd tîm merched dan 13 Ysgol Brynrefail i'r cae ar gyfer eu gêm gwpan derfynol yn erbyn genod Cwmtawe. Gyda'r haul yn tywynnu uwchben a thorf fawr o gefnogwyr wedi teithio i'w cefnogi yr oedd gobeithion pawb yn uchel.

O'r chwib gyntaf fe ddechreuodd Brynrefail chwarae pêl droed gwyth gyda'r capten, Mari Gibbard, ac Alaw Hughes yn feistri ar ganol y cae ac yn llywio'r chwarae gyda'u sgiliau destlus. Disgleirio hefyd oedd doniau Lois Regan, yn arwain y blaenwyr ac nid oedd yn sioc i neb pan sgoriodd Brynrefail trwy waith gwyth Lois Regan. O hynny ymlaen fe ddaeth goliau yn gyson ac erbyn hanner amser yr oedd yr ornest eisoes ar ben i genod Cwmtawe.

Dechreuodd yr ail hanner fel y diweddwyd yr hanner gyntaf gydag Ysgol Brynrefail yn pwyso ac yn sgorio'n gyson. Yn ystod yr ail hanner fe ddaeth tri eilydd i'r cae ond ni wnaeth wahaniaeth i batrwm y chwarae a Brynrefail yn parhau i bwysu a chwarae pêl droed gwyth.

Yn agos at ddiwedd y gêm fe sgoriodd Cwmtawe gôl gysur ond pan ddaeth y chwib olau dim ond un tîm oedd ar y brig. Y sgorwyr oedd: Lois Regan (3), Mari Gibbard (3), Alaw Hughes (3), Ela Owen (1), Catrin Gruffudd (1). Seren y gêm? Wel a bod yn hollol onest yr oedd pedwar ar ddeg yn serennu a phawb yn chwarae eu rhan tuag at fuddugoliaeth swmpus.

Genod ni -da'de

Cwpan Cymru dan 18

Sul 9fed Mai 2010

Park Hall, Croesoswallt

Ysgol Brynrefail 8

Ysgol Tonypandy 4

Dyma'r drydedd ffeinal mewn dau ddiwrnod i Ysgol Brynrefail a'r ornest fwyaf cyffrous eto. Fe gamodd Aled Hughes, y capten, ar y cae, yn arwain ei dîm i'r gêm a chynhaliath y cefnogwyr yn canu yn eu clustiau.

O'r dechrau cychwyn yr oedd brwydro ffyrnig rhwng y ddau dîm, taclo caled, penio cadarn a phasio gwyth. Ond a dim ond un munud ar y cloc cafodd Brynrefail gic cosb ar ffin bocs Tonypandy a chwpiodd Jamie McDaid ergyd nerthol i gefn y rhwyd - y gôl gyflymaf yn hanes yr ornest. O hynny ymlaen, a choeliwch neu beidio, newidiodd y sgôr chwe gwaith cyn hanner amser pryd welwyd y sgôr yn 4-3 i Ysgol Brynrefail a Jamie McDaid eisoes wedi sgorio 'hat trick' a Llion Jones wedi sgorio un. Bu'r ail hanner yn fwy cyffrous na'r hanner cyntaf gyda dau chwaraewr, un o bob tîm yn cael anaf pen a chwaraewr o Donypandy yn cael cerdyn coch. Ond yr oedd hogiau Brynrefail yn rheoli'r chwarae ac yn chwarae pêl droed gwyth. O Iwan Parry, oedd yn feistrolgar yn y cefn, i Gethin Green a Dyfan Coles oedd yn pwyso ar amddiffyn Tonypandy yn ddiidrugaredd, chwaraeodd y tîm bêl droed caboledig a tua diwedd y gêm yr oedd Jamie McDaid wedi sgorio dwy gôl arall a Dyfan Coles a Meurig Parry wedi cyfrannu un yr un. Er i Donypandy sgorio gôl gysur hwyr, y sgôr ar y diwedd oedd Brynrefail 8 Tonypandy 4 a bu cymeradwyaeth croch pan gododd Aled y cwpan uwch ei ben.

Hogia ni - da 'de!

Cwpan Pêl-droed Ysgolion Cymru Tîm Gorau'r Gystadleuaeth



Beth wnawn ni heb eu sgiliau? Beth wnawn ni heb eu hanogaeth? Beth wnawn ni heb eu cefnogaeth?

Cwpan Cymru dan 16

Sadwrn 8fed Mai 2010

Park Hall, Croesoswallt

Ysgol Brynrefail 2 Morriston

Comprehensive 2

Gyda thorf dda wedi teithio i'w cefnogi rhedodd tîm pêl-droed dan 16 Ysgol Brynrefail i'r cae ar gyfer yr ornest yn erbyn Morriston. O'r gic gyntaf fe bwysodd Morriston ar amddiffyn Brynrefail ac yn gynnar yn y gêm fe ildwyd gôl i Morriston trwy amddiffyn gwael. Gyda'r capten, Daniel Bell, yn llywio'r chwarae yng nghanol y cae fe frwydrodd Brynrefail yn ôl ond yr oedd amddiffyn Morriston yn gadarn. Yna anelodd Jamie McDaid yn syth am y gôl, curo pedwar dyn yr amddiffyn, cyn gyrru chwip o gais, gyda'i droed chwith, yn erbyn y postyn. Yn anffodus i Brynrefail aeth tîm Morriston i fyny'r cae a sgorio eu hail gôl a rhaid oedd cyfaddef ar yr egwyl fod Morriston wedi cael y gorau o'r hanner cyntaf.

Fe ddaeth Brynrefail allan am yr ail hanner yn llawn brwdfrydedd. Dechreusant chwarae pêl-droed da ac nid oedd hir cyn y gwelwyd Jamie McDaid yn chwipio'r bêl i'r rhwyd wedi croesiad hyfryd o'r asgell dde. Yna bu pwyso a phwyso ar gôl Morriston ond yr oedd eu hamddiffyn yn brwydo'n galed i gadw Brynrefail rhag sgorio. Pum munud cyn y diwedd fe lwyddodd Nathan Price i rwydo'r bêl gydag ergyd dda ac yr oedd y gêm yn gyfartal. Am y pum munud oedd yn weddill yr oedd Brynrefail yn ymgeisio'n ffyrnig ond yn anffodus ni allwyd sgorio gôl fuddugol ac fe aeth y gêm i ornest ciciau o'r smotyn. Er i'r ddau dîm llwyddo a methu, ciciau Morriston fu'n fuddugol o 4-3.

Ni chollwyd y gêm, naddo, ond fe gollwyd yr ornest ciciau smotyn a'r gwpan yn mynd i Morriston.

HOGIA NI - da 'de

TWRNAMENT PÊL DROED YR URDD

Buddugol - Genod dan 13

Ysgol Brynrefail

Ar ddydd Iau 13eg Mai 2010 fe gynhaliwyd twrnament cenedlaethol pêl-droed Urdd Gobaith Cymru yn Aberystwyth gydag Genod Ysgol Brynrefail yn cystadlu.

Fe gurwyd Ysgol Cymer, Rhondda, yn y rownd gyn-derfynol o 3-0 cyn cystadlu yn y ffeinal yn erbyn Ysgol Uwchradd Dyffryn Aman. Bu gornest dda rhwng y ddau dîm a di-gôl cyfartal oedd hi ar ddiwedd y gêm. Mewn amser ychwanegol fe sgoriodd Lois Regan gôl aur ac Ysgol Brynrefail gipiodd y tlws.

Buddugol - Genod dan 15

Ysgol Brynrefail

Ar ddydd Iau 13eg Mai 2010 fe gynhaliwyd twrnament cenedlaethol pêl droed Urdd Gobaith Cymru yn Aberystwyth gydag Genod dan 15 Ysgol Brynrefail yn cystadlu.

Fe gurwyd Ysgol Dyffryn Aman yn y rownd gyn-derfynol o 2-1 cyn cystadlu yn y ffeinal yn erbyn Ysgol Pen y Dre. Bu gornest dda rhwng y ddau dîm a di-gôl cyfartal oedd hi ar ddiwedd y gêm. Yn yr ornest ciciau o'r smotyn enillodd Brynrefail o 3-1 ac Ysgol Brynrefail gipiodd y tlws.



Tîm dan 16 Oed

HOGIA NI 'DE

Ar fin nos heulog ym mis Ebrill aeth ein gohebydd i weld y gêm rhwng Llanrug a Blaenau Ffestiniog ar gae pêl-droed Eithin Duon. Nid oes angen

rheswm am fynd i wyluo gem bêl-droed ond, gyda 5 cyn-ddisgybl yn chwarae ac Iwan Price o'r flwyddyn 12 presennol yn cynnal yr amddiffyn, yr oedd hi'n gêm ddifyr. Da oedd gweld Iwan, sydd yn serennu yn nhimau pêl-droed

**Angen gweithwyr i helpu gyda'r 'ECO'
Cysylltwch â'r Cadeirydd**



yr ysgol yn serenu gyda thîm Llanrug yng nghynghrair Alliance Cymru. A'r sgôr terfynol? Llanrug 4 Blaenau Ffestiniog 0 a phawb lleol yn mynd adre'n hapus.

Ac yn ymuno ac Iwan trwy chwarae i dimau pêl-droed y pentrefi lleol y mae:

Leon Radnor - Llanrug; Carwyn Eddy - Llanrug; Ben Jones - Llanberis; Tomos Owen - Llanberis; Llion Jones - Llanberis; Aled Hughes - Llanberis; Gethin Green - Waunfawr.

A rhaid peidio ac anghofio am y tri nesaf:

Daniel Bell - Tomos Emlyn Jones; Academi Oldham Athletic; Jamie McDavid: Academi Tranmere

Hogia ni - da 'de!

SBOTOLAU AR GERALLT JONES



Y mae Gerallt Jones, sydd yn huanu o bentref Bethel, yn ddisgybl ym mlwyddyn 11 yn Ysgol Brynrefail, ac yn gwneud enw da iddo'i hun ym myd pêl-fasged. Bu ein gohebydd allan o wynt yn trio dal i fyny â fo!

Pryd wnest ti ddechrau chwarae pêl fasged?

Mi ddechreuais chwarae pedair blynedd yn ôl yng Nghaergybi gyda thîm Holyhead Celts. Fe fûm yn chwarae yn erbyn tîm academi Doncaster, un o'r timau mwyaf llwyddiannus ym Mhrydain.

Gyda pha dîm wyt ti'n chwarae 'rwan a be ydi dy safle di?

Rwy'n chwarae yn safle 'point guard', yr aelod sy'n rheoli'r chwarae. Ar hyn o bryd rwy'n chwarae i dîm Eryri yng nghynghrair Gogledd Cymru ac eleni yr ydym wedi ennill y cynghreiriau dan 16 a dan 18. Dwi'n chwarae i'r ddau dîm.

Rwyd hefyd wedi bod yn chwarae dros Gymru?

Do. Dwi'n aelod o dîm dan 16

CYSTADLEUAETH CEMEG PRIFYSGOL BANGOR

Ar y 25ain o Fawrth 2010, aeth tri o ddisgyblion blwyddyn 12 i Brifysgol Bangor yng nghwmni eu hathrawes, Mrs Sioned Roberts. Aethant i'r Adran Gemeg, Prifysgol Bangor, i gymryd rhan yn y gystadleuaeth Dadansoddwr i Ysgolion, rhanbarth y Gogledd Orllewin, wedi ei threfnu gan y Gymdeithas Frenhinol Cemeg. Yn cynrychioli Ysgol Brynrefail oedd Elena Owen, Dyfan Coles a Bethan Roberts.

Yr her eleni oedd mesur crynodiad ethanol mewn sampl o gwrw adnabyddus ac ar ôl lluniaeth ysgafn ymunodd y tri gyda'r pedair ar ddeg ysgol arall yn yr ornest i lawr yn y labordy i gychwyn eu harbafion. Dwy awr a hanner yn ddiweddarach roedd pawb, gyda chymorth spectrophotometer, wedi darfu eu crynodiad ac wedi rhoi eu canlyniadau i'r beirniad.

Ar ôl cinio estynedig aeth ein



tîm i ddarlithfa Orton i gael cyflwyniad ar ddelweddau gan Dr Andrew Davies.

Am hanner awr wedi un fe ddaeth Dr Mike Beckett, Pennaeth yr Ysgol Gemeg, Prifysgol Bangor, i gyflwyno'r canlyniadau. Gyda Rydal,


Penrhos yn drydydd a Howells yn ail, daeth tîm Brynrefail i'r brig gan guro 14 ysgol arall.

Llongyfarchiadau calonnog i'r tîm a fydd yn awr yn symud ymlaen i'r bencampwriaeth Brydeinig yn Huddersfield ym Mis Mehefin.

YSGOLORIAETH I AARON

Y mae Aaron Gwyn yn nesu at ddiwedd ei yrfa ym mlwyddyn 11 yn Ysgol Brynrefail. Yn anffodus i ni y mae hefyd yn dod at ddiwedd ei yrfa gyda ni yn Ysgol Brynrefail oherwydd y mae Aaron wedi ennill ysgoloriaeth i Ysgol Breswyl Rydal ym Mae Colwyn. Bu Aaron yn chwarae rygbi ers yn grwtyn pump oed pan ddechreuodd gyda Chlwb Rygbi Caernarfon. Ers cyrraedd Brynrefail bu yn aelod cyson o dimau'r Ysgol a hefyd wedi chwarae dros dimau Arfon/Môn dan 15 a thimau Caernarfon dan 16.

Mae Aaron, sy'n chwarae yn yr ail reng (y sgrym i'r anwybodus yn eich plith!), wedi datblygu yn chwaraewr rygbi dawnus tros ben ac yn chwarae i dîm Gogledd Cymru R.G.C.1404 ac eisoes wedi chwarae yn erbyn y Dreigiau, Gweilch, Gleision a'r Sgarlets. Ond yn ddiweddar fe ddaeth â chlod mawr iddo'i hun a'i deulu



trwy gael ei ddewis yn gapten ar dîm Gogledd Cymru dan 18 yn eu gornest yn erbyn Canada ac fe gafodd y fraint o'u harwain i fuddugoliaeth, Gogledd Cymru 10 Canada 8.

Cafodd ei ysgoloriaeth dan nawdd Undeb Rygbi Cymru ac yn ogystal â'i addysg bydd yn derbyn 16 awr o hyfforddiant gan arbenigwyr yr undeb rygbi. Bwriad Aaron ar ôl gadael Ysgol yw chwarae rygbi yn broffesiynol. Er yn drist o'i golli o deulu Brynrefail yr ydym yn ymfalchïo yn ei lwyddiant ac yn dymuno'r gorau oll iddo mewn dyfodol a fydd, yn ein barn ni, yn ddisglair dros ben.

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson) CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Carpedi, Llenni a Lloriau Pren



TACUSO CWN
Busnes Newydd Lleol

PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10

DYDD SUL 8YB-4YP
Gwasanaeth Casglu a Danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07565791010

ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

YSGOL BRYNREFAIL



DISGO'R 60au

Ar ddydd Mercher, 21ain Ebrill 2010 fe gynhaliwyd Disgo'r 60au yn neuadd yr ysgol i godi ymwybyddiaeth a chodi arian tuag at y sioe gerdd 'Hairspray' fydd yn cael ei pherfformio yn neuadd yr ysgol yn ystod wythnos olaf tymor yr Haf. Bu dawnio brwdfrydig i fiwsig Scarabs a chwaraeodd amrywiaeth o ganeuon ar y noson. Y mae ymarfer brwdfrydig pob amser cinio ac ar ôl ysgol ar hyn o bryd, gydag ymarferion canu, dawnio ac

actio. Y prif berfformwyr fydd: Tracy - Elliw Griffiths; Link - Huw Owen; Corny Collins - Gwilym Rhys; Velma - Leri Tecwyn; Amber - Ilid Jones; Penny - Heledd Roberts; Maybelle - Catrin Jones; Edna - Gethin Griffiths; H.J. Spritzer - Liam Taylor; Wilbur - Dafydd Griffiths; Seaweed - Dyfan Coles; Inez - Eiry Price a haid o ddisgyblion eraill sy'n rhy niferus i'w henwi. Bydd y sioe gerdd ymlaen dros ddwy noson. Y tocynnau ar werth yn o fuan. Gwnewch yn siŵr o'ch lle am wledd o hwyl a sbri!!!



Peidiwch â gori ar stori!
Cysylltwch â'ch gohebydd lleol



Harddwch eich cartref gyda

**FFENESTRI
CELTIC WINDOWS**

**FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL**

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch - 'dio'n costio dim i gael pris

**HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG**



**(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)**



Y Mesur Iaith Gymraeg – cryfhau'r iaith

Ydi'r ddeddf iaith newydd a gyhoeddwyd tua mis yn ôl gan Lywodraeth Cymru yn mynd i gryfhau'r Gymraeg yn ein cymunedau?

Gadewch i ni ystyried un enghraifft syml: ein hawl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn fferyllfeydd. Gan fod degau ar ddegau o fferyllfeydd bychain pentrefol wedi cau yn ystod y degawd diwethaf, rydym bellach yn cael ein gorfodi i ddefnyddio fferyllfeydd gan gwmnïau mawr cyfalafol, Boots a Superdrug yn ddwy enghraifft perffaith. Oes gennym ni yr hawl i ddisgwyl gwasanaethau Cymraeg gan y cwmnïau hyn yn ôl y Mesur Iaith? Yn syml, nagoes.

Pa werth ymarferol yw'r ddeddfwriaeth felly, os nad oes gennym yr hawl i dderbyn gwasanaethau ieuchyd drwy gyfrwng y Gymraeg, sefyllfa drychinebus o drist lle na allwn drafod ein anghenion ieuchyd yn ein hiaith ein hunain.

Mae darn mawr o jig-so y mesur ar goll ar hyn o bryd. Yr unig sôn am hawliau yn y mesur iaith yw hawl i gwmnïau a chyrff geisio osgoi unrhyw gyfrifoldeb i roi gwasanaethau Cymraeg. Dim hawliau i siaradwyr Cymraeg, ond hawliau i gwmnïau.

Y gwir yw na fydd hawl i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd, ni fydd hawl gan blant na rhieni i addysg

cyfrwng Cymraeg, a ni fydd gan y Gymraeg statws swyddogol yn ein gwlad o dan y cynlluniau, er gwaethaf addewidion y Llywodraeth. Rydym ni eisïau yr hawl i'r Gymraeg oherwydd rydym ni eisïau gweld hyder pobl yn yr iaith yn cynyddu.

Mewn llythyr agored i'r cylchgrawn Golwg, fe ddywedodd un deg tri o gyfreithwyr: 'Ofnwn fod y Mesur yn greadur llai effeithiol nag y gallasai fod i ddylanwadu'n gadarnhaol ar yr hinsawdd ieithyddol yng Nghymru.'

Datblygiad o gynlluniau iaith yn unig yw'r mesur hwn yn ôl y Llywodraeth. Dyna pam mae Cymdeithas yr Iaith yn dweud bod y gwleidyddion yn colli cyfle enfawr i wneud gwahaniaeth pwysig dros yr iaith.

Dewch gyda ni! Cefnogwch ymgyrchoedd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg i gryfhau'r Mesur: Dewch i'n Rali ym Mhorthmadog am 2.00 o'r gloch ar 19 Mehefin – maes parcio swyddfa dreth (ger y Cob).

Defnyddiwch ein ffurflen ar-lein i wneud yn siŵr bod gwleidyddion yn sylweddoli bod angen cryfhau'r mesur: www.cymdeithas.org/lobi.php erbyn 11 Mai.

Llofnodwch ein deiseb <http://deiseb.cymdeithas.org> Menna Machreth, Cadeirydd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

DATHLU 125 MLYNEDD

Eglwys Sant Padarn Llanberis
20-26 MEHEFIN 2010

**DYDD SUL
20 MEHEFIN**

GWASANAETHAU ARFEROL
GŴYL FLODAU- EGLWYS AR AGOR 12-6pm
7.30yh CYMANFA GANU GYDA CHORAU LLEOL
Yn Arweinydd y Gân Iwan Wyn Williams

**DYDD LLUN
21 MEHEFIN**

GŴYL FLODAU- EGLWYS AR AGOR 12-6pm
Cychwyn am 6.30yh Pererindod Blwyfol a Taith Gerdded
o Eglwys Sant Peris i Eglwys Sant Padarn

**Dydd Mawrth
22 MEHEFIN**

GŴYL FLODAU- EGLWYS AR AGOR 12-5pm
6yh CYNGERDD GAN YSGOL DOLBADARN

**Dydd Mercher
23 MEHEFIN**

GŴYL FLODAU- EGLWYS AR AGOR 12-6pm
6yh Parti Ysgolion Sul / Eglwys Fach
GWISG FFANSI OES FICTORIA

**DYDD IAU
24 MEHEFIN**

GŴYL FLODAU- EGLWYS AR AGOR 12-3pm
6yh Offeren yr Wyl gyda'r ESGOB a CHYN OFFEIRIAID,
i ddilyn-RHOSTIO MOCHYN a LLUNIAETH
Tocynnau ar gael gan Aelodau yr Eglwys- £5. Dedolion, £2. Plant Neu ffoniwch-873678

**Dydd Gwener
25 MEHEFIN**

GŴYL FLODAU- EGLWYS AR AGOR 12-7pm

**Dydd Sadwrn
26 MEHEFIN**

GŴYL FLODAU- EGLWYS AR AGOR 12-4pm
7yh. Gyngerdd Mawreddog
ARWEINYDD Y NOSON STEPHEN EDWARDS
Timothy Ward • Elin Mai • Grwp Jazz
a Chôr y Gogledd

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

GENEDIGAETH. Anfonir ein llongyfarchiadau i Eirian a Huw Tegid ar enedigaeth eu merch fach, Gwen Elin, wyres gyntaf i Nant a Tegid a Gwilym a Dora Parry, Llangefni. Pob bendith i chi fel teulu.

PROFEDIGAETH. Daeth colled arall i gyfeillion Llys y Gwynt a'r pentref hwn ym marwolaeth sydyn ond tawel Mrs Renie Morris, 2 Llys y Gwynt. Bu'r angladd cyhoeddus yn Amlogfa Bangor ddydd Gwener, 14 Mai. Cydymdeimlir yn ddwys iawn â'r teulu oll.

GWELLHAD. Gobeithio fod y rhai ohonoch sydd wedi bod yn sâl yn awr yn teimlo'n well. Ein cofion eto y mis hwn at Phil Jones, Bryntirion.

YSGOL SUL BOSRA. Cynhelir Cymanfa'r Annibynwyr Cylch Cwm y Glo a Deiniolen bnawn Sul, 23 Mai, yn y Neuadd Gymuned, Penisarwaun. Edrychir ymlaen am Gymanfa fywiog fel y llynedd.

Cynhelir Cymanfa'r Methodistiaid hefyd yn y Neuadd Gymuned, bnawn Sul, 20 Mehefin, am 2.00 o dan arweinyddiaeth John Eifion. Bydd te bach i ddilyn i bawb.

PWYLLGOR APEL YR URDD BRYNREFAIL A

PHENISARWAUN. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i Elen George a'r teulu am y rhodd anrhyddedus a dderbyniwyd tuag at yr Apêl, er cof annwyl am y diweddar Geraint George. Roedd mudiad Urdd Gobaith Cymru yn agos iawn at ei galon a bu'n aelod a chymwynaswr mawr i'r Urdd er ymifanc iawn. **CYLCH TI A FI.** Bu'n ddiwrnod byrlymus ddydd Sadwrn, 24 Ebrill. Bu'r plant yn cymryd rhan mewn Beicio Noddedig i godi arian i'r cylch, sydd bellach wedi hen sefydlu ers mis Medi, a chasglwyd y swm o £124.78. Bydd yr arian yn

hwb i brynu offer newydd. Y mae'r Cylch yn cyfarfod bob pnawn Iau yn y Neuadd Gymuned rhwng 1.30 a 3.00 o'r gloch. Croeso cynnes i rieni, gwarchodwyr a neiniau neu deidiau. Dowch i gymdeithasu. **CARNIFAL Y PENTREF.** Cynhelir y gweithgareddau o nos Sul, 4 Gorffennaf i Sadwrn, 10 Gorffennaf. Hyderir y ceir tywydd braf gan fod nifer o gemau llawn hwyl wedi'u trefnu ynghyd â Chymanfa Ganu a'r Carnifal ei hun ar y Sadwrn.

PWYLLGOR NEUADD GYMUNED. Tynnwyd Clwb Cant Mai a'r enillwyr lwcus oedd: Gethin Green, Tan-y-coed; Bethan Williams, Tai Newyddion.

Nos Iau, 20 Mai, cynhaliwyd Miri Mai ar fuarth yr ysgol ac yn y Neuadd Gymuned. Roedd rhywbeth at ddant pawb gyda chwaraeon wedi'u trefnu gan blant yr Adran Iau, byrddau gwerthu, tombola, raffl a phaned a bisged a chŵn poeth. Diolchir i bawb a gefnogodd y noson mewn unrhyw fodd.

Dymunir pob lwc i'r Gân Actol a'r Parti Unsain yn Eisteddfod yr Urdd Ceredigion. **GAIR O DDIOLCH.** Dymuna Betty Pritchard, 3 Llys y Gwynt, ddiolch yn ddiffuant i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y llu cardiauc ac anrhegion a gafodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 oed yn ddiweddar. Diolch arbennig am ddiwrnod o ddathlu bythgofiadwy ym Mhortmeirion.

DYMUNA Nansi Jones, Meillionydd, ddiolch o waelod calon i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y llu cardiauc, ymweliadau a rhoddion ar ei phen-blwydd hithau yn 80 oed. Bu'r dathliadau gyda'r teulu yn hyfryd a braf oedd cyfarfod ffrindiau gydol oes. Diolch yn fawr iawn.

ARHOLIADAU. Y mae'r arholiadau bondigrybwyll wrth y drws rŵan a'r ymlafnio a'r chwysu ar waith. Pob lwc i chi oll. **YSGOL GYMUNED** Gwersi Beicio. Mae plant Bl.6 yn cael gwersi beicio ar bnawn dydd Iau ac yn mwynhau'r profiad.

Gwersi Gymnasteg. Bu plant CA1 yn dilyn cwrs o wersi dan y cynllun Pess gyda Mr Meilir Owen am chwe wythnos. Roedd pawb wedi mwynhau ac yn diolch i Mr Owen am ddod i'r ysgol.

Cwmni'r Frân Wên. Daeth criw'r Cwmni draw i'r ysgol fore dydd Llun, 10 Mai, i berfformio'r sioe 'C'laen', oedd yn ymwneud ag addysg bersonol a chymdeithasol o safbwynt bwlio ac effaith bwlio. Croesawyd



Robert a mam; Gruffydd; Olwen a'i chwiorydd, Efa a Mabli; Gethin Emyr a'i chwaer, Enlli; Alex; Charlotte a'i chwaer, Michaela; Erin, Efa, Elliw; Ioan ac Aron, brodyr i Gethin ac Alex.

plant o Ysgol Cwm y Glo yma atom i fwynhau'r perfformiad.

Taith Gerdded Noddedig. Dydd Mawrth, 25 Mai, aeth plant CA2 a rhai o'r staff ar daith gerdded o'r ysgol i Lanberis gan gerdded o amgylch Llyn Padarn ac yn ôl i'r ysgol. Bwriad y daith oedd casglu arian tuag at gostau Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llannerchaeron. Diolch i Mr Gareth Williams, athro Bl 3 a 4 am drefnu'r daith ac i'r plant am wneud ymdrech dda i gasglu arian gan y noddwyr.

Symud Dosbarthiadau. Dydd Llun, 14 Mehefin, bydd Bl6 yn mynd ar ymweliad ag Ysgol Brynrefail. Bydd cyfle i'r

dosbarthiadau eraill symud i fyny am y diwrnod. Bydd y dosbarth Meithrin presennol yn cael aros yn yr ysgol drwy'r dydd a chael cinio ysgol os dymunant. Gwahoddir plant fydd yn dechrau yn y dosbarth Meithrin ym mis Medi i ddod i'r ysgol rhwng 9 ac 11 o'r gloch ar y bore yma.

Llongyfarchiadau i Miss Bethan Williams, Gweinyddes yn yr ysgol ar enedigaeth bachgen bach yn ddiweddar, Hari Griffith, brawd bach i Cian.

CRONFA'R PENSIYNWYR. Enillydd Pêl Bonws Loteri mis Ebrill oedd Mrs Carolyn Roberts, Pen Dinas, Llongyfarchiadau.



Tarian gan Bwyllgor Cylch Alaw/Cybi i'r Parti Llefaru buddugol yn Eisteddfod Cylch yr urdd. Llongyfarchiadau i Barti Ysgol Llannerchymedd.

Er cof am Sharon Wyn 'YN ANGOF NI CHAIFF FOD'

Cyflwynwyd Tarian er cof annwyl am Sharon Wyn Woolley (Owen gynt) gan Bwyllgor Cylch Alaw/Cybi i'w chyflwyno'n flynyddol i enillwyr y Parti Llefaru Gorau yn Eisteddfod Cylch yr Urdd. Yr enillwyr cyntaf i dderbyn y darian hardd oedd Parti Ysgol Llannerchymedd.

Dylan Griffith Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu'r Holl Ardal

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL-07778127394)



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrraeddych Mewn Steil Mewn Cerbyd *Rolls Royce*
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDD ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

**Blodau
Racca**

(ALWYN A SARAH JONES)

Ffôn: 870605

- Basgedi Planhigion
- Planhigion Gardd
- Basgedi Crog
- Hefyd, Compost ar werth

RHODD O'R GALON
YW BLODAU

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt, Ffôn: 870740

YSGOL DOLBADARN. Byd y fodrwy. Llongyfarchiadau i Anne-Marie Edwards (gynt!) ar ei phriodas â Chris Griffith yn ddiweddar. Dymuniadau gorau i'r ddau ohonoch gan bawb o Ysgol Dolbadarn. Rydym yn cychwyn arfer gyda'r enw newydd Mrs Griffith!

Rhyd-Ddu. Bu nifer o blant blwyddyn 5 yn aros yng Nghanolfan Rhyd-Ddu yn ddiweddar. Dyma brofiad gwyhych a bythgofiadwy i'r plant ac roedd pawb wedi mwynhau'n fawr. Diolch i'r staff fu'n cynorthwyo.

Taith i Pili Palas a Thai Celtaidd. Fel rhan o'u gwaith, aeth blwyddyn 2, 3, a 4 i ymweld â Phili Palas a Thai Celtaidd ger Melin Llynnon, Ynys Môn. Dyma hanes y trip gan Elin Thomas o flwyddyn 2:

Dydd Gwener Mai 7fed aeth blwyddyn 2 am drip. Roedd y bws yn cychwyn am 9 o'r gloch ac yn mynd â ni i Pili Palas. Gwelsom bob math o bethau yno. Dyma rai o fy hoff bethau: mochyn cwta, pili pala, neidr. Cawsom ginio yn y parc a chwarae ar y castell neidio. Aeth pawb i wario eu harian yn y siop. Prynais keyring. Yna yn ôl ar y bws i weld tai'r Celtaid. Yn y tŷ gwelais croen anifail, tân, gwely a ffrâm gwehyddu. Yna 'nôl ar y bws unwaith eto a chyrraedd Llanberis am 3 o'r gloch. Dyma ddiwrnod braf.

Ras Hwyaidd. Cynhaliwyd y Ras hwyaidd flynyddol ar Fai 13eg. Cafwyd hwyl yn gwylio'r hwyaidd yn nofio i lawr yr afon ac yna cael cyfle i chwarae gemau megis pêl-droed, pêl-rwyd a chwarae gyda'r parasiwt. **Ysgol y Môr.** Dyma ddigwyddiad cyffrous iawn i rai o blant hynaf yr ysgol i gael cyfle i brofi gweithgareddau dŵr am wythnos gyfan (Mai 17-21). Cawn fwy o hanes yr wythnos yn y rhifyn nesaf.

Llongyfarchiadau i Ancel o

flwyddyn 6 a ddewiswyd i chwarae rygbi i dîm Eryri. Bu'n chwarae gyda'r tîm yn Abertawe yn ddiweddar. Tipyn o gamp, Ancel, dal ati!

LLONGYFARCHIADAU i Mrs Bethan Rhys a'r teulu ar enedigaeth mab bach. Rydym yn falch iawn o glywed fod pawb yn iawn ac yn edrych ymlaen at gael gweld y bychan yn fuan. Dymuniadau gorau i'r teulu.

DIOLCH. Dymuna Ann Pritchard, Madryn, Stryd Newton, ddiolch yn ddiffuant i bawb am eu anrhegion, cardiau a phob caredigrwydd ar achlysur ei phen-blwydd yn 70 oed yn ddiweddar. Diolch o galon i bawb.

CYMDEITHAS UNDEBOL LLANBERIS. Terfynwyd tymor y Gymdeithas ar nos Fawrth, Ebrill 13eg, gyda chinio yng Ngwesty Dolbadarn. Diolch i Aneirin am wledd fendigedig unwaith eto!

Ar ôl bwyta cawsom gyngerdd ardderchog, gyda Treflyn a Rhys yn canu, ac Ann yn cyfeilio.

Llywyddwyd y noson gan Mr Gareth Jones a rhoddwyd y diolchiadau gan Mr John H. Hughes. Diolch i bawb am eu ffyddlondeb yn mynychu cyfarfodydd y Gymdeithas.

Bydd y tymor nesaf yn ailddechrau ym Mis Hydref. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd. Diolch yn fawr.

PEN-BLWYDD YN 90. Dymuna Mrs Elsa Williams, 12 Stryd Y Ffynnon, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, anrhegion a dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 90 yn ddiweddar.

LLONGYFARCHIADAU i David Emlyn Davies, 12 Rhes Fictoria, ar achlysur ei ben-blwydd yn 90 mlwydd oed dydd Sadwrn, 22 Mai oddi wrth y plant a'r teulu i gyd.

CÔR YN CANU ER MWYN PLESER



Cynhaliwyd cyngerdd gan 'Gôr Canu Er Mwyn Pleser' (dan nawdd Coleg Menai) yn Festri Capel Coch Llanberis, brynhawn Iau, 6 Mai, dan arweiniad yr amryddawn Mr Gwilym Lewis, Caergybi.

Cafwyd prynhawn hwyliog a braf a daeth cynulleidfa dda i wrando ar y canu. Mwynhawyd te blasus gan bawb ar ddiwedd y prynhawn. Rhoddwyd y diolchiadau gan y Parchedig John Pritchard a rhannwyd elw'r Cyngerdd rhwng Cronfa Ambiwlans Awyr Cymru, a'r Capel. Tynnwyd llun o'r Côr, gyda chynrychiolydd Coleg Menai, Miss Sharon Owen, (ar y chwith yn y rhes gefn), gan Mr Emerson Hughes



Parchg John Pritchard, tad Dafydd. Cynhaliwyd y wledd yn Neuadd Hendre, Talybont, Bangor. Maent wedi cartrefu ym Minawel, Bethel.

Mae un rhan o deulu Gwenno hefyd yn hanu o Lanberis: ei Nain - Mona - yn ferch i Grace, oedd yn chwaer i Gwilym, Nel, Hetty a May, gynt o Stryd Charlotte. Mae Mona felly'n gyfnither i Erinwen, Gomer ac Emlyn ac Elisabeth, Griffydd Eirwyn ac Eluned. Gadawodd Grace y pentref, tua chanrif yn ôl bellach, yn 15 oed i weini ym Mhwlheli. Symudodd yn ddiweddarach i Barrow in Furness adeg y Rhyfel Mawr, lle cyfarfu â'i phriod, Y Parch John Idris Owen.

DIOLCH. Dymuna Dafydd a Gwenno Pritchard, Minawel, Bethel, ddiolch am y cardiau a'r anrhegion a'r dymuniadau da a phob dymuniad da a gawsant gan gyfeillion, cymdogion a theulu adeg eu priodas. Gwerthfawrogi'r cyfan yn fawr iawn.

Gwasanaethau Garddio Gorwel

01286 650761
07773 020424

Planu Llwyni
Planhigion a Llysiau
Tori Gwair a Gwrychoedd
Tocio Palu a Chwynu
Tacluso a Gofal Tymhorol
Gwella Safon Tir
Glanhau Llwybrau, Tywarchu
CWBL YSWIRIEDIG

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTIÖN • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

RHOSTIO MOCHYN
AR GYFER
POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol

* Partiön rhwng 40 a 400!

* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau

* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!

Cysylltwch â

JOHN BRYNAFON
LLANRUG

Y DYD CIG ar 675190 / 673188

Ffôn symudol: 07798 718188

Gwefan: www.ydyncig.co.uk

Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



O SIAMBAR SELWYN

Dwi wedi symud o'r Siambar ac yn treulio tair wythnos yma mewn lle o'r enw Cala Bona ar Ynys Majorca. Mae Myra a finna wedi hen arfer dod yma am bythefnos ddwy waith y flwyddyn ers deuddeng mlynedd, ond dyma'r tro cynta i ni gael y cyfle i dreulio tair wythnos yma. A choeliwch neu beidio, ar y bore cynta' fe gawsom ein croesawu â chawod o eira. Pawb yn rhuthro i nôl ei gamra i dynnu llun y plu gwyn yn disgyn, a sawl un yn cael ei siomi gan fod y rhyfeddod trosodd cyn iddynt gael ei gofnodi ar ffilm. Digwyddodd. Darfu.

Fel arfer, mi fydda i yn dod â hen gyfrola' o *Gyfansoddiadau'r Eisteddfod Genedlaethol* hefo fi, a bob amser yn canfod rhywbeth diddorol ynddynt ar gyfer trefnu ambell sgwrs gogyfer â chyfarfodydd y gaeaf. Ond ychydig iawn o gloddio mewn hen gyfansoddiadau a wnes i y tro hwn, gan i mi gael anrheg fel 'syrpreis' gan Myra, sef nofel ddiddorol a thrwchus Angharad Price, sef *Caersaint*. Ac er mai ar Ynys Majorca yr oeddwn, mi dreuliais i y rhan fwy o'r gwyliau yn hen dre Caernarfon, a chael pleser anghyffredin yn crwydro strydoedd yr hen dre a chyfarfod â'r cymeriadau.

Fe wyddom am glasur Angharad *O tyn y gorchudd* a gipiodd iddi Fedal Ryddiaith Prifwyl Sir Benfro 2002. Fel y dywedodd y diweddar Athro Hywel Teifi Edwards yn ei

feirniadaeth:

'Dyma'r hunangofiant a'm trawodd o'r dechrau fel gwaith llenor ymwybodol sy'n gwybod bod creu yn gymaint o her i'r hunan-gofianydd ac ydyw i'r nofelydd.'

Mae *O tyn y gorchudd* a *Caersaint* mor wahanol ac yn dangos y ddawn arbennig sydd gan Angharad. Rydym yn dod i adnabod y cymeriadau yn *Caersaint* yn syth ac mae'r ddeialog yn llifo'n naturiol. Daeth y Mona (Yr Anglesey) ag atgofion yn ôl i mi o'r cyfnod y bûm yn cyfansoddi Pryddest 'Y Dref' ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Dyffryn Clwyd, mor bell yn ôl a 1973. Dwi'n cofio (waeth i mi gyfaddef ddim, cha i ddim sac bellach!) chwarae triwant a threulio bore yn Yr Anglesey. Cuddio tu ôl i bapur newydd a gwrando ar y Cofis yn patro mewn iaith liwgar tra'n gwario eu pres dâl wrth far y dafarn.

Dwi'n cofio cael gwahoddiad i fynd i Ysgol Santes Helen, Caernarfon, ymhen rhyw chwarter canrif ar ôl cyhoeddi'r bryddest i drafod y newid a oedd wedi digwydd yn yr hen dref dros y blynyddoedd. Oedd, roedd 'na dipyn o newid wedi digwydd mewn chwarter canrif. O ydi, mae'r castell yma o hyd, yn gofeb oesol i rym gwancus y Sais a'i ysfa i goncro, ac mae'r Anglesey, fel bocs a lusgwyd allan gan y garsiwn gynt, yn swatio yn ei gysgod, ond ddaw Mons a Wil

Napoleon ddim yno mwyach i batro am oscars.

O ddarlenn y nofel *Caersaint*, sylwn fel mae yna fwy byth o newidiadau i'w canfod yn y darlun cyfoes a gawn o'r hen dref. Ia, pleser pur oedd cael dychwelyd i 'G'nafron' o heulwen Majorca.

'Mae'n feiddgar, mae'n lliwgar, mae'n gyfoes - mwynhewch,' meddai Angharad Tomos ar glawr y nofel. Fe wnes i hynny yn sicr.

Oes yna ryw ysgol yng Nghymru sydd wedi magu cymaint o brif-lenorion a

phrifeirdd ag Ysgol Brynrefail? Mae'n anodd gen i gredu. Dyma restr o'r Prifeirdd: T. Rowlands Hughes (dwy gadair). Beirdd y Goron: Herman Jones, Dilys Cadwaladr a Dafydd John Pritchard. Y Fedal Ryddiaith: Emyr Roberts, Eurig Wyn (dwy Fedal a Nofel Daniel Owen) ac, wrth gwrs, Angharad Price. Cofiw'n hefyd am gysylltiad agos y Prifardd R. Williams Parry â'r ysgol pan enillodd o y Gadair yn 1910.

Ys gwn i pwy fydd y nesa o gyn-ddisgyblion Brynrefail i godi ar alwad y corn gwlad?

Arddangosfa Celf Agored 2010 Oriol Pendeitsh, Caernarfon

Mae Oriol Pendeitsh, Caernarfon yn arddangos cyfoeth o waith celf gan ddegau o artistiaid (44 gwaith gan 39 artist) gwahanol ar hyn o bryd. Ewch draw i gael gweld - mae mynediad am ddim.

Yn dilyn cystadleuaeth Celf Agored 2010, lle cyflwynwyd ymhell dros 200 o weithiau, mae arddangosfa arbennig yn cael ei chynnal o hyn hyd 20 Mehefin yn Oriol Pendeitsh. Mae hyn yn dilyn arddangosfa flaenorol diweddar a gynhaliwyd yn Amgueddfa ac Oriol Gwynedd, Bangor.

Dyma'r pymthegfed flwyddyn yn olynol i'r gystadleuaeth gael ei chynnal, gan roi cyfle i arddangos amrywiaeth eang o waith celf gan gynnwys paentiadau, darluniau, ffotograffau a rhai cerfluniau. Dyma'r tro cyntaf i arddangosfa o'r gwaith gael ei chynnal yn Oriol Pendeitsh.

Dywedodd Delyth Gordon, Swyddog Celf Weledol Cyngor Gwynedd: 'Rydym yn falch iawn ein bod wedi gallu cynnal rhan o'r arddangosfa Celf Agored yn Oriol Pendeitsh eleni. Mae'r arddangosfa yn gyfle gwych i rai o'r artistiaid a fu ym Mangor i gyflwyno eu gwaith eto gan ddangos yr amrywiaeth a'r safon mae'r Celf Agored yn ei ddenu. Mae croeso cynnes i aelodau'r cyhoedd ddod draw i fwynhau'r

gwaith.'

Bu panel o ddetholwyr yn dewis beth i'w arddangos allan o 240 o geisiadau. Aeth y wobwr eleni i brint digidol archifol *'It Wasn't Always Like This'*, gwaith atmosfferig gan Isobel Crawford o Fae Colwyn.

Rhoddydwyd cymeradwyaeth uchel i weithiau celf eraill sef *'Sea Dream 3'* gwaith sialc a phastel gan Susan Gathercole, *'Charlotte's Shell (Shelf Life)'* gwaith olew gan Pam Green, *'Sir Benfro'* darn cyfrwng cymysg gan Marian Jones, *'Lower Braich Gallery'* gwaith acrylig ac inc gan Arfon Jones, pâr o weithiau olew *'Bethesda Shops'* gan Martin Morley a *'Little Dancer aged 84'*, cerflun gan Wendy Mayer. Ar ddiwedd yr arddangosfa ym Mangor fe ddewiswyd, drwy bleidlais gyhoeddus, gwaith Wendy Mayer yn *'Ddewis y Bobl'* eleni.

I'r rhai sydd a diddordeb mewn cynnig gweithiau celf i'w dethol ar gyfer Celf Agored 2011, gellir gadael manylion yn Amgueddfa ac Oriol Gwynedd, Bangor.

Mae'r arddangosfa yn Oriol Pendeitsh, Caernarfon ar agor hyd 20 Mehefin. Mae'r oriel ar agor pob dydd, 7 diwrnod rhwng 10am a 4pm.

Mynediad am ddim.

Hen Benillion 'Newydd' am bysgod Dyffryn Peris a'u stad yn 2010

Yn Llyn Padarn mae brithylliaid,
Yn Llyn Padarn mae torgochiaid,
derfyn haf, o fae Caernarfon
yma i gladdu daw y samon.

I Lyn Padarn daw pysgodyn,
un a'i enw 'y gwyniedyn' -
brithyll môr, efallai 'sewin',
neu 'goch y dail' i'r hen werin.

Yn Llyn Padarn mae llysywod
a mil myrddiwn o'r hen sildod...
pan ddaw Tachwedd ddu i'r henfro
'slywod ânt am Fôr Sargasso.

Wedi'r 'claddu', wedi'r gaea',
wedi sbel yn nŵr y fangra',
geilw'r môr rai'n ôl i besgi
rhaf 'Chwefroliad' yn Eryri.

O Lyn Padarn aiff y samon
'mhell fel 'kelt' drwy fae Caernarfon,
ynta 'i gefnder - y gwyniedyn
yn hyll a main - rêl hen lipryn.

Yn Llyn Padarn mae 'na wenwyn,
un all ddeffro unrhyw wanwyn,
os na ddeffry'n hawdurdoda'
erwau'r pysg a lwyr ddiplanna.

NORMAN CLOSS

**Stôf Draddodiadol neu FODERN
i gynhesu eich tŷ**



JOHN HUGHES a'i FAB
IARD LO • Carmel • Gwynedd
01286 882160



**Gwasanaeth Gwres
a Plymio**

Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

Arwel Jones • Tyn y Maes • Cwm y Glo LL55 4DH
Tel. (01286) 872225 Mobile- 07798 746718

CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLEN

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol y Cyngor ar y 4ydd o Fai.

Dyweddodd Hefin Williams bod ffermwyr yn bryderus bod cŵn yn cael eu gadael yn rhydd ar adeg wyna – amlygu'r ffaith yn Eco'r Wyddfa.

Ffordd osgoi Bontnewydd
Cyflwynodd Huw P. Hughes ffilm o'r gwahanol ddewisiadau o lwybr bwriadol y ffordd newydd. Trafodwyd yr opsiynau a phenderfynwyd cefnogi'r llwybr melyn.

Y rheswm i'w gyflwyno i Gyngor Gwynedd yw bod y llwybr yma yn bwysig ar gyfer diwydiannau lleol a mynediad i Gaernarfon o'r dwyrain. Byddai'r llwybr yma yn difetha llai o dir amaethyddol. Ni fyddai'r opsiwn brown yn lleihau trafndiaeth ym Methel a Rhiwlas ond yn hytrach yn cynyddu traffig ar ffyrdd bychain.

Cefnogwyd hyn yn unfrydol.

Materion o'r cofnodion

Cofeb Gorffwysfa Bethel. Derbyniwyd ateb Mr Steffan Jones yn cadarnhau ei fod, mewn ewyllys da, yn trefnu gwaith cynnal a chadw i'r gofeb er nad yw'n gyfrifoldeb i Wynedd – llythyr o ddiolch.

Hen chwarel Fachell. Ateb Gwynedd eu bod wedi rhoi sylw i'r gât ac am ofyn i'r perchennog drwsio'r wal.

A4244. Gofynnwyd i Wynedd ail-ystyried cyfyngu'r cyflymder i 50 m.y.a. o Beran i Groeslon Tŷ Mawr, o ganlyniad i'r ddamwain angheuol ddiweddar.

Band Llydan Rhiwlas. Cyflwynwyd ateb Hywel Williams AS yn dweud y bydd yn ail-afael yn y mater ar ôl yr etholiad.

Gofynnodd Elspeth Mitcheson am gael ychwanegu at hyn: 'Mae deiseb ar y gweill i bwyso ar BT i ddarparu'r gwasanaeth cyn gynted a phosib. Mae'r sefyllfa bresennol

yn effeithio hyd yn oed ar werthiant a phrisiau tai yn yr ardal. Gobeithir gwneud ymchwil trwy BT – be sy'n bosib ei wneud.'

Awgrymodd Huw P. Hughes iddynt ofyn am gymorth Mr Dafydd Einion Jones a/neu Mr Llyr Jones o Gyngor Gwynedd. Bwriada'r gymuned yn Rhiwlas godi arian at yr ymgyrch os bydd angen. Penderfynodd y Cyngor gefnogi'r trigolion, y ddeiseb a'r ymchwil ym mha fodd bynnag fydd ei angen i sicrhau'r gwasanaeth i Rhiwlas. **Biniau graean ysgolion.** Ateb Adran Addysg Gwynedd bod arian ar gyfer hyn i ddod o ddryniad yr ysgol unigol. Trafodwyd hyn a phenderfynwyd nad yw'n deg bod ysgolion ucheldir yn gorfod cario'r baich o gymharu ag ysgolion eraill nad ydynt yn dioddef llawer o effaith tywydd gaeafol.

Pont Fawr, Rhydfadog. Ateb Gwynedd y gostyngir y cwrbyn ar gyfer yr anabl.

Biniau Ail-gylchu Rhiwlas. Amlygwyd nad ydynt wedi eu dychwelyd - llythyr eto i Wynedd.

Gohebiaethau eraill

Toiled Deiniolen – gwybodaeth oddi wrth Wynedd y rhoddir yr adeilad ar werth ac os na fydd prynwr ei ddymchwel maes o law.

Y drefn o gasglu sbwriel. Dywedodd Elfed Morris bod sbwriel ail-gylchu yn cael ei adael ar lawr, rhai strydoedd yn cael eu clirio ac eraill ddim. Nid oes amser penodol i ddod o gwmpas er bod y drefn newydd wedi cael digon o amser i sefydlu. Ychwanegodd Huw P. Hughes bod y sefyllfa yr un fath ym Methel.

Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Dywedodd Phyllis Ellis bod Côr a Cân Actol o ysgol Penisa'rwaun wedi llwyddo i fynd i Ddyffryn Aeron, bydd rhaid iddynt wneud dau

ymweliad oherwydd amserau'r ddwy gystadleuaeth. Penderfynwyd cyfrannu £100 at eu costau.

Llwybrau

Gorchymyn Gwynedd i wyro llwybr rhif 16, Clwt y Bont. Llwybr Lôn Plas i Rhyd y Groes. Amlygodd Hefin Williams bod ffermwr wedi codi corlan a chau'r llwybr – llythyr i Wynedd.

Cynllunio

Derbyniwyd pedwar cais a

chaniatawyd naw cais gan Wynedd.

Mater ychwanegol

Dyweddodd Richard Ll. Jones ei fod ef, Elspeth Mitcheson a Hefin Williams wedi mynychu gwasanaeth cysegru mynwent newydd Pentir. Diolch i Glerc Pentir am y gwahoddiad, roedd y Cynghorwyr Hefin Williams, Elspeth Mitcheson a Richard Llywd Jones yn bresennol.

Dyddiad y cyfarfod nesaf – 1af o Fehefin.

CYNGOR CYMUNED LLANRUG

Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27ain o Ebrill 2010 penderfynwyd:

- Y byddai Gareth Roberts yn adrodd i'r Cyngor yn fisol ar ddatblygiad y pamffled llwybrau.

- Diolch i R.L. Williams am ei gyfraniad o £750 tuag at gost y ffens rhwng Cae Chwarae Pwll Moelyn a Hen Ysgol Glan Moelyn.

- Trefnu cyfarfod gyda swyddogion Cyngor Gwynedd ynglŷn â'r llwybr ger Llain Gro, Llanrug.

- Cysylltu eto gyda Asiantaeth yr Amgylchedd ynglŷn â dŵr yn casglu ar ran o Gae Chwarae Pwllmoelyn.

- Trafod penderfyniad Cyngor Gwynedd i ariannu torri llwybrau category 1 a 2 yn unig ar gyfer 2010 ar ôl derbyn prisiau am dorri'r llwybrau hyn.

- Symud mainc oddi wrth y wal tu ôl i dai Nant y Glyn yn dilyn cwynion am ymddygiad pobl ifanc yn amharu ar y preswylwyr ac i ysgrifennu at Brifathro Ysgol Brynrefail a'r Heddlu yn gofyn am gymorth i ddelio â'r cwynion.

- Nad oedd gwrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio canlynol:

Gosod to llechi newydd a lleoli tanc olew yn 2 Teras Arfon, Llanrug

Dymchwel adeilad allanol ochr a chodi estyniad deulawr yn ei le – 2 Bron Seiont, Pontrug

Cyfreithloni defnydd yn

ymwneud â chadw mynedfa gerbydol a lle parcio yn 1 Teras Bryngwyn (ond tynnu sylw'r Cyngor at y perygl o beidio lledu'r ffordd i gyd yma)

- Gwrthwynebu'r cais i Adeiladu 5 tŷ newydd a diwygio amod 2 o ganiatâd cynllunio blaenorol – Ceir Cwm, Cwm y Glo ar sail gor-ddatblygu'r safle a phroblemau parcio enbyd yn y pentref. Credir fod y cynllun yn anaddas ac allan o gymeriad yr ardal.

- Na ellid gwneud penderfyniad ar y cais i godi adeilad amaethyddol - Cae Rhydu, Pontrug, gan nad oedd digon o wybodaeth am y defnydd.

- Rhoi'r grantiau canlynol: Seindorf Arian Llanrug - £650 Y GOGs - £50

- Ceisio cael cytundeb ffurfiol gyda Chyngor Cyngor Gwynedd i wagio biniau'r fynwent.

- Ystyried y posibilrwydd o drwsio'r fainc yn Nhancoed.

- Gwneud rhestr o lefydd i blannu mwy o Gennin Pedr ymhellach yn y flwyddyn.

- Tynnu sylw Cyngor Gwynedd i'r broblem o geir yn parcio mewn llefydd anaddas o fewn y gymuned.

- Anfon llythyr yn gwrthwynebu lleoli ffordd osgoi Bontnewydd drwy Bontrug.

Bydd y cyfarfod nesaf o'r Cyngor yn cael ei gynnal nos Fawrth, 15fed o Fehefin yn y Sefydliad Coffa, Llanrug.

H.E. HUGHES

A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys

LLANBERIS


Ffôn: 870444



★ Gwerthwr Glo

★ Olew Gwres Canolog

i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!



J.M. JONES

a'i Feibion

LLANRUG

Gwaith Coffaol

Ffon Gwaith

01286 672898

Cartref

01248 679089

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

DEINIOLLEN

Mrs Nia Gruffudd. Ffôn: (872133)

Y GYMDEITHAS

LENYDDOL (UNDEBOL).

Daeth tymor y Gymdeithas i ben trwy gael swper yng Nghlwb Golff Caernarfon ar 27 Ebrill. Ein gŵr gwadd oedd y Parchedig Harri Parri, Caernarfon, a hithau'n 50 mlynedd eleni ers iddo gael ei ordeinio'n weinidog. Cafwyd sgwrs ddiddorol ganddo am yr adeg a dreuliodd yn y tair gofalaeth y bu'n yn eu gwasanaethu. Llywyddwyd y noson gan y Parchedig John Pritchard a diolchwyd gan Mr Len Jones.

ARHOLIADAU. Dymuniadau gorau i bobl ifanc y pentref a'r ardal a fydd yn eistedd arholiadau yn yr wythnosau nesaf.

PROFEDIGAETH. Bu farw Mr Gwilym Lloyd Williams, 9 Rhes Fictoria gynt, yn ddiweddar, yn 81 mlwydd oed. Roedd yn fwy adnabyddus fel Gwilym Bysys, gan iddo fod yn ddreifar bysys i nifer o gwmnïau'r ardal.

Roedd yn ŵr bonheddig a chymwynasgar ac fe ddengys y parch iddo trwy'r niferoedd mawr a fynychodd y gwasanaeth angladd.

Cydymdeimlwn yn fawr â'i deulu, yn enwedig ei blant, Michael a Susan.

CWPAN PEL-DROED YSGOLION CYMRU. Cafodd Ysgol Brynrefail lwyddiant diweddar yn y gystadleuaeth uchod, gyda tri thim yn ymddangos yn y rowndiau terfynol.


Yn anffodus, collodd y tîm dan 16 ar giciau o'r smotyn ond fe fu'r genod dan 13 yn llwyddiannus trwy guro Cwm Tawe o 11-1, a'r bechgyn o 8-4. Llongyfarchiadau i blant a phobl ifanc y pentref a fu'n cymryd rhan.

GWELLHAD. Dymuniadau gorau i drigolion y pentref a'r ardal a fu'n dioddef anhwylder yn ddiweddar.

CARNIFAL DEINIOLLEN

2010. Mae'r trefniadau yn mynd yn dda ar gyfer Carnifal eleni, gyda'r pwyllgor yn brysur yn trefnu gweithgareddau'r wythnos.

Yn ddiweddar cafwyd noson hynod lwyddiannus yng ngwesty'r Padarn Lake, Llanberis, yng nghwmni'r cynchwarawr pêl-droed rhyngwladol, John Hartson. Arweiniwyd y noson yn fedrus gan Meilir Owen, a bu John yn ateb cwestiynau ynglŷn â'i yrfa efo'r amrywiol glybiau y bu'n chwarae iddynt a gyda Chymru,



ac am ei frwydr ddewr ddiweddar gyda chanser.

Hoffai'r pwyllgor ddiolch i bawb am eu cefnogaeth yn ystod

y noson, am y rhoddion hael a gafwyd ar gyfer ocsiwn ar y noson ac am gwmniaeth Meilir Owen a John Hartson.

CADAIR TREVELIN I'R TEITHIWR

Nant Roberts o Lanrug oedd enillydd Cadair Eisteddfod Trevelin yn Y Wladfa, a gynhaliwyd ddiwedd Ebrill a dechrau Mai. Mae Nant ar hyn o bryd yn cynorthwyo yn Ysgol yr Hendre, Trelew, a'i gŵr, Y Parch Tegid Roberts, yng ngofal eglwysi Dyffryn Camwy. Mae'r gadair yn cael ei chynnig am waith yn Gymraeg, a'r goron am waith yn Sbaeneg. Ysgrifennodd Nant gerdd ar y testun 'Rhyfeddodau'r Cread'. Llongyfarchiadau calonnog yr 'Eco' i Nant, a'n cofion at y ddau ohonoch. Fe fydd croeso arbennig i chwi yn ôl i'r ardal ddechrau'r gaeaf. Cyhoeddwn yma ran olaf y gerdd fuddugol.

SMALA
www.smala.net

cardiau busnes
taflenni
logos
poster
gwefannau



01286 660 364
07887 654 251

Rhyfeddod prin

Ar gyfandir yn hemisffer y de,
rywle rhwng aml sgertiau gwynion yr afon a thir y tân,
fe saif teithiwr i ryfeddu.
Bydd wedi chwysu wrth ddringo'r copaon,
wedi gwlychu yn llwch dŵr y rhaedrau,
ac wedi cyffroi wrth glywed clecian tanio gwn y rhewlifoedd.
Ac yna, ar ôl croesi'r anial eang,
mae'n canfod rhyfeddod prinnach.

Mae'n synhwyro mawredd cymeriad dynion nad oedd am gael eu concro,
mae'n ymwybodol o gadernid cydwybod y rhai oedd â'r lliw haul ar eu talcen,

yn gweld patrwm cywrain gofal y gwagedd am eu plant,
a phob teulu'n drysor.

Mae'n clywed llifeiriant parhaus moesoldeb, dysg, cerdd a chân,
mae'n blasu'r ysbryd na roddai le i anobaith ddiffodd y fflam,
yn arogl'i'r pridd a gloddiwyd
ac yn teimlo cynhesrwydd y tân oedd mewn enaid.

Codwyd cartrefi a chapeli, torrwyd ffosydd,
Gyda phenderfyniad a dyfalbarhad yn lli adrenalin y gwythiennau.
Dyfrhawyd y tir, ac mae tystiolaeth yr aberth a'r llafur yno o hyd.
Yr ymdrech a'r cyffro, y chwysu, y gwlychu a'r sychu!
Er creithiau'r gofid, ni ddiffoddodd fflam yr egwyddor.
Ydyn, mae nhw yno.

Ai Cymry sydd yno'n byw ym Mhatagonia?

Ai Archentwyr sy'n siarad Cymraeg?

Mae'r teithiwr yn holi

ac yn rhyfeddu.

Maen nhw yno hyd.

(Ffug enw: Y TEITHIWR/ Nant Roberts)



**GERAINT OWEN
CARPEDI**

CARPEDI • VINYLS • TEILS
CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS
A RHAI MEWN STOCK



Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfaï Mill Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475

**CEIR CYMRU
BETHEL (01248) 670451**

(Hefyd yng Ngherrig-y-Drudion a'r Gaerwen, Môn)

A ydych yn ystyried newid eich car o fewn y flwyddyn nesaf? Ystriwch y ffeithiau hyn:

1. Mae tri-chwarter y ceir newydd a gaiff eu gwerthu ym Mhrydain yn colli rhwng 25% a 30% o'u gwerth erbyn eu bod yn naw mis oed.
2. Mae cwmnïau mawr a chwmnïau lesio a llogi yn derbyn oddeutu 25% o ddisgownt wrth brynu eu ceir ac felly mae'r cerbydau hyn yn dod ar y farchnad am brisiau isel ac fel arfer mewn cyflwr rhagorol wedi cael eu cynnal a'u cadw heb ystyried costau.
3. Mae gennym brofiad o 40 mlynedd yn prynu a gwerthu ceir ail-law ac rydym, ar gyfartaledd, yn trafio mil o filltiroedd bob wythnos yn chwilio am y bargein gorau er mwyn eu cynnig i bobl Gwynedd ar elw sydd fel arfer o gwmpas 5% o'r pris.

CHWILOTA

SAWL PLENTYN SYDD YNG NGHEUNANT?



Cwestiwn od i'w ofyn erbyn heddiw mae'n debyg, ac er mai prin yw'r newyddion a ddaw o'r Ceunant i golofnau'r 'Eco', rwy'n siŵr y byddai gohebydd lleol yr ardal wedi bod ar ben ei d(d)igon yn adrodd hanes te parti anghyffredin a gynhaliwyd yno ar ddiwedd Chwefror 1884. A byddai ffotograffwr yr 'Eco', pe bai'r papur mewn bodolaeth bryd hynny, wedi ei gadw'n hynod brysur yn cofnodi'r achlysur.

Daw'r hanes yng ngholofnau'r Genedl Gymreig, ond ni roddir unrhyw syniad pam na chan bwy y cynhaliwyd y fath de parti. Dyma sut y mae'r adroddiad yn darllen:

'Cynhaliwyd te parti a chyfarfod adloniadol yn y lle uchod, pryd y mwynhaodd cryn nifer o bobl mewn oed ac yn agos i gant o blant, y wledd a ddarparwyd ar eu cyfer. Hefyd, rhannwyd tua dau gant o afalau ac oranges i'r plant ar ôl y wledd. Gwasanaethpwyd wrth y byrddau gan amryw foneddigesau, ac yr oedd treuliad ac addurniad chwaethus y cyfryw yn glod nid bychan i'r rhai fu yn eu trefnu.

Yn yr hwyfwr cafwyd gwledd arall ar gyfer y meddwl, pryd y llywyddwyd gan Hugh J. Hughes, Merddyn. Yr oedd y cynulliad yn lluosog iawn, a diameu i barwb fwyngau eu hunain yn rhagorol. Gobeithio nad yw hyn ond dechrau yn ardal fach y Ceunant fel y gellid meddwl oddi wrth y gefnogaeth wresog a roes yr ardal i'r symudiad.'

Mae'n amlwg mai yng Nghapel y Ceunant y cynhaliwyd y wledd a'r cyfarfod adloniadol, gan nad oedd adeilad arall yno a fyddai'n ddigon mawr i gynnal y fath achlysur. Ond does dim sicrwydd mai aelodau'r capel oedd yn gyfrifol am y wledd. Sylwch hefyd, mai ar ôl y

wledd y rhannwyd yr afalau a'r orennau i'r plant! Ac mi wyddoch erbyn hyn fod yn agos i gant o blant yn byw yn y Ceunant yn 1884, ac i ddau gant o ffrwythau gael eu rhannu rhyngddynt.

Sgwn i faint o blant sydd yn y Ceunant erbyn heddiw, a faint o waith trefnu fyddai ei angen i rannu ffrwythau i bob un ohonynt? Yn sicr, fyddai dim posibl cynnal gwledd o'r fath yno heddiw, gan nad oes adeilad addas ar gael. Tybed oes rhywun o drigolion gwreiddiol y Ceunant wedi clywed am y te parti anghyffredin hwn, ac a gynhaliwyd rhai eraill yno?

Teulu Henlôn

Dychmygwch fy syndod pan dderbyniais alwad ffôn yn ystod y mis o ganolbarth Cymru yn ymateb i'r llun o Siop Meri a ymddangosodd yn yr 'Eco' yn rhifyn Ebrill. 'Mrs Griffith sydd yma,' meddai'r llais ar ben arall y lein, 'a fi ydi'r hogan bach yn y llun efo fy chwaer fenga.' Roedd Mary Jones a gadwai'r siop, yn chwaer i'w thad, ac yn chwaer hefyd i daid Kelvin Jones a wnaeth yr ymholiad cyntaf.

Cafodd Mary Jones dorri ei choes i ffwrdd yn ifanc oherwydd salwch, ac adeiladwyd y siop iddi gan ei thad er mwyn iddi ennill ychydig fywoliaeth. Byddai plant y teulu yn casglu llus, a Mary Jones yn eu gwerthu yn y siop. Gadawodd Mrs Griffith Ddeiniolen yn nechrau'r pumdegau, a bu'n byw yn Canada am ddeugain mlynedd. Bellach, a hithau'n tynnu at y deg a phedwar ugain oed, mae wedi dychwelyd i ganolbarth Cymru, a'i Chymraeg mor loyw a phe na bai erioed wedi bod oddi yma. Mae ei chwaer ieuengach yn byw yn ardal Wolverhampton erbyn hyn. Llawer o ddiolch i Mrs Griffith am gysylltu ac

GROESLON NEWYDD



Groeslon Newydd, Bryngwyn

Mae'r llun yn dangos yr hen fwthyn fel ac yr oedd yng nghanol y 1950'au. Tybed ai'r llun hwn a welodd Bryn Williams yn y llyfr Cottages of Wales?

Ond pam fod y bwthyn yn cael ei alw yn 'Groeslon Newydd'? Roedd yr hen ffordd o Gaernarfon i Lanberis yn dilyn o Lanmoelyn i'r Bryngwyn ac ymlaen am y Clegir. Pan adeiladwyd y ffordd newydd heibio i'r Llythyrdd a thrwy Groeslon Marc am Gwm y Glo, aeth y groeslon ym Mryngwyn yn 'hen' groeslon. Groeslon Marc oedd y groeslon 'newydd' mewn gwirionedd, er iddi ddod i fodolaeth tua 1832!

ychwanegu at y wybodaeth am y siop a'i pherchennog.

Daeth gwybodaeth hefyd gan Mrs Jennie Williams, Rhydfadog, a oedd yn byw pan yn blentyn yng Nghorlan y Bont, islaw i Siop Meri, 'Arferem fel plant fynd yno i brynu da-da os oedd dima i sbario. Os oedd mam Meri yno, dim ond gofyn am focs gwag a wnaem, ond os Meri oedd yno, yna gwario'r ddima, a hithau'n rhoi mwy o dda-da nac a ddylai.'

Yn ôl Mrs Williams, merch dawel a charedig iawn oedd Mary Jones, ac er fod ganddi goes osod, roedd yn defnyddio baglau. Roedd crawia o lechi wedi eu gosod o ddrws ffrynt y siop at y lôn, a byddai Mary Jones yn eu golchi'n ddyddiol, a hynny ar ei heistedd, gan lusgo ei hun yn ôl a blaen. Bu Mary Jones farw ym mis Hydref 1962

yn chwe deg mlwydd oed, ac fe'i claddwyd ym Mynwent Macpelah.

Griffith Rowlands, Pant y Celyn, Cwm y Glo

Gan Hywyn Williams o Brestatyn y daeth y wybodaeth am y cymeriad hwn y gwnaethpwyd ymholiad amdano rai misoedd yn ôl. Rhoes gyfeiriad at y *Caernarfon and Denbigh Herald* ym mis Rhagfyr 1914 oedd yn rhestru bechgyn o Gwm y Glo a oedd wedi ymuno â'r fyddin, sef Morgan John Hughes, Tan y Graig; Johnnie Williams, Fron Deg; John Hughes, Bryn Hyfryd; Owen Hughes, Morda; Azariah Thomas, Tan y Graig; Griffith Rowlands, Pant y Celyn a Hugh Morris, Bryn y Foty. Roedd y criw wedi ymuno â'r Ffiwsilwyr

Gwahoddir ceisiadau am swydd:

Swyddog Gweinyddol Cae'r Gors

Canolfan Dreftadaeth Kate Roberts

Lleoliad: Rhosgadfan. Cyflog: £7.00 yr awr

Oriau: 20 awr yr wythnos. Dyddiad Cau: 11.06.2010

Mae Cae'r Gors yn ganolfan brysur ble y cynhelir digwyddiadau addysgiadol a diwylliannol, ynghyd ag amgueddfa fechan am hanes yr awdures a'r ardal.

Y Swyddog Gweinyddol fydd yn cynorthwyo'r Rheolwr gyda chyfrifoldebau beuniyddol y Ganolfan Dreftadaeth, gan gynnwys ateb ffôn, gwaith gweinyddol a thywys ymwelwyr.

Cytundeb hyd at Mawrth 2011 i ddechrau.

Am ragor o wybodaeth;

FFONIWCH: 01286 831715

EBOST: post@caergors.org

This is an advertisement for the post of Administrative Officer at the Kate Roberts Heritage Centre, for which the ability to communicate in Welsh and English is essential.

Radio Ysbyty Gwynedd

Mae'r RADIO yn darlledu oddimewn i'r Ysbyty
POB NOS FERCHER

Os yr ydych yn dymuno i aelod o'ch teulu,
neu ffrind, dderbyn cais am gân neu
gyfarchion gennych, yna ffônïwch-

(01248) 384789 Gwnewch nodyn
o'r rhif!

Ar ol 7.30 Nos Fercher yn unig

Cymreig ac ar eu ffordd i'r Dardanelles. Erbyn mis Medi 1915 cawn ar ddeall fod Griffith Rowlands yn Gallipoli a'i fod yn dioddef o'r clwyf rhydd. Daeth drwy'r rhyfel ac fe'i rhyddhawyd o'r fyddin ar 20fed o Ebrill 1919.

Hefyd yn 1914, roedd Russell, ei frawd yn ymuno â'r 'Territorials' ac yn gadael yr ardal am Aberystwyth. Ymunodd yntau â'r ffiwsilwyr Cymreig, ond cofnodir iddo farw yn Ysbyty Môn ac Arfon ym Mangor, a'i gladdu yn Llanrug ym mis Rhagfyr 1916. Mae coffa iddo yng Nghapel Cwm y Glo, ar dabled coffa a ddadorchuddiwyd ym mis Hydref 1921.

A'r hyn sy'n syndod yw'r ffaith fod y ddau frawd yma yn feibion i fy hen nain o'i hail briodas, ond nad oeddwn i'n ymwybodol fod y teulu wedi byw ym Mhant y Celyn. Wrth gwrs, mae Rowlands yn gyfenw eithaf cyffredin yng Nghwm y Glo am rhyw reswm, er nad ydynt i gyd yn berthnasau. Roedd eu chwaer hynaf wedi priodi ac yn byw ar Ynys Manaw. Roedd teulu arall o Rowlands - heb ddim cysylltiad - hefyd wedi byw ar Ynys

Manaw am gyfnod, ond wedi dychwelyd i Gwm y Glo. Tybed beth oedd y dynfa i'r ynys honno ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg?

Enwau Lleoedd Arfon

Cafwyd darlith hynod ddiddorol gan y Dr Glenda Carr yng nghyfarfod y gwanwyn o Gymdeithas Hanes Sir Gaernarfon yng nghanolfan Felinwnda yn ystod mis Mai. Soniai am darddiad enwau tai a thyddynnod yng ngwahanol blwyfi Arfon, gan roi sylw arbennig i nifer ym mhlwyfi Llanddeiniolen a Llanrug. Mae erthygl i'r un perwyl ganddi yn Nhráfodion y Gymdeithas gogyfer â'r flwyddyn 2008 hefyd. Bydd cyfarfod nesaf y Gymdeithas yng Nghanolfan Uwchgwyrfai, gydag ymweliad â hen eglwys Clynnog. Y dyddiad yw'r 3ydd o Orffennaf.

A dyna'r cyfan am y mis hwn. Llauer o ddiolch i bawb a gysylltodd, a chofiwch, mae angen mwy o wybodaeth ar rai agweddau y soniwyd amdanynt yn ystod y rhifynnau diwethaf. Neu, anfonwch unrhyw ymholiad i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon (Ffôn: 01286 673515).

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

COFION. Deallwn fod Muriel Evans, Cae Gwyddel, yn Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd. Anfonwn ein cofion cynhesaf ati gan ddymuno iddi adferiad buan.

YR EGLWYS

BRESBYTERAIDD

CASGLIAD ARBENNIG. Cyflwynwyd rhodd ar ran yr Eglwys mewn ymateb i Apêl y Parch Gwenda Richards, Caernarfon, yn dilyn ei hymweliad ag India. Bydd yr arian yn mynd i ariannu gwaith yn Ysbyty Shillong a dau gartref preswyl.

SASIWN CHWIORYDD Y GOGLEDD. Mynychwyd y Sasiwn a gynhaliwyd eleni ar Fai 4ydd yng Nghapel y Drindod, Penmount, Pwllheli, gan rai o chwiorydd yr Eglwys. Cyfrannodd yr Eglwys y ôl ei harfer at gasgliad blynyddol Cyfeisteddfod Chwiorydd Arfon ac a gyflwynwyd yn y Sasiwn at waith y Genhadaeth.

OEDFAON GORFFENNAF am 5.30 yr hwyr

6: Parch Trefor Jones, Caernarfon

13: Parch John Owen, Bethesda

20: Mr Clifford Owen, Llanfairfechan

27: Mr Dafydd Iwan, Caethro

SEFYDLIAD Y MERCHED

Nos Iau, Mai 20fed daeth yr

aelodau ynghyd i'r Caban. Mater cyntaf y noson oedd trafod yr Argymhelliad fydd dan sylw yng Nghyfarfod Blynyddol Cenedlaethol Sefydliad y Merched sef 'y gorchymyn i gael labeli clir ar gynnyrch cig, dofednod a physgod a werthir yn y wlad hon'. Pledleiswyd i gytuno â'r penderfyniad.

Y siaradwr gwadd yn dilyn oedd Gwyndaf Evans, Llanberis yn rhoi hanes Morus Ifans a'i olew enwog. Gweithgareddau nesaf aelodau'r gangen fydd bowllo deg ar Fehefin 16eg a noson yng nghwmni Russell Jones ar Fehefin 17eg.



ORIEL
CWM
Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio

Lluniau o bob math

ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau

gwreiddiol gan

Artistiaid Lleol

Richard S. Humphreys

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

CLWB Y MERCHED. Nia Wyn Williams o Landegfan a ddaeth i'n diddori nos Iau, 29 Ebrill, gan roddi inni dros awr hynod o bleserus ar ei harbenigedd mewn hynafolion. Daeth nifer o'r aelodau ag eitemau personol unigryw eu hunain er mwyn cael ei barn broffesiynol hi arnynt. Ymysg rhai o'r eitemau cafwyd llun arbennig, hen getyn clai, hen ddoliau, platiau, celfi arian a brodwaith, ynghyd â nifer o eitemau anghyffredin eraill. Diddanwyd pawb wrth iddi amcangyfrif gwerth yr eitemau amrywiol.

Daeth hithau â nifer helaeth o'i chasgliadau hi gan gynnwys rhai teuluol, a chawsom eglurhad manwl a chywrair o'u hanes. Diolchodd y llywydd yn gynnes iawn iddi am noson mor ddiddorol. Rhoddwyd y raffl gan Helen ac fe'i henillwyd gan Nia. Yn gyfrifol am y te roedd Eirian a Glenda.

CAPEL. Bydd y gwasanaethau canlynol yn cael eu cynnal yn ystod mis Mehefin.

6: 2.00 Mr Andrew Setatree (Cyfarfod wedyn er mwyn trafod gwaith ieuenctid Cristnogol ymhlith plant a phobl ifanc Caeathro a'r chylch)

13: 11.00 Ysgol Sul

20: 10.00 Mr John Huw Hughes

11.00 Ysgol Sul

27: 11.00 Ysgol Sul.

TYNFA MISOL. Enillwyr Tynfa Misol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro ar gyfer mis Mai oedd:


£40: (69) Chloe Everitt, 21 Tai Glangwna; £25: (80) Mark a Linda Jones, Tŷ Newydd; £15: (71) Clive James, Hafan; £5: (103) Edwina Hughes, Bryn Eden.

LLINELLAU MELYN.

Ddeunaw mis neu fwy yn ôl, pan ofynnodd rhai o drigolion canol Caeathro am waharddiadau parcio, roedd yr amgylchiadau'n dra gwahanol. Bu rhai o'u plaid a rhai yn eu herbyn. Mae rhai wedi

cyflwyno sylwadau i Gyngor Gwynedd ar achlysur gwahanol - o blaid ac yn erbyn. Bu newidiadau i'r cynllun gwreiddiol. Fodd bynnag, erbyn hyn mae'r gorchymyn cyfreithiol yn ei le a'r hawl gorfodi gan wardeniaid traffig Cyngor Gwynedd. Beth oedd y costau gweinyddol, cyfreithiol, hysbysu a gweithredu i Gyngor Gwynedd? Oni fyddai parcio trwy gwrteisi a gyrru'n arafach trwy'r pentref wedi datrys popeth?

AMSERLEN BYSYS. Yn groes i'r wybodaeth ar y polion, ceir bws am 8.25 yr hwyr o Gaeathro i Gaernarfon o hyd - a bws yn ôl am 11.00 yr hwyr. (dydd Llun i ddydd Sadwrn).



Alun Ffred Jones

Aelod Cynulliad
Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa yna cysylltwch ag o yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth

8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076

70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR

01248- 372948

alunffred.jones@cymru.gov.uk

SNOWDONIA PARC
WAUNFAWR

• Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
• Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
• Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go iawn

Ffôn: (01286) 650218

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

YSGOL WAUNFAWR. Hoffem ddiolch i Mrs Dee Edwards MBE o Gwm-y-glo am ddod i'r ysgol i drafod ymddygiad anghymdeithasol ac ymosodol gyda phlant yr Adran Iau. Bu'n sesiwn addysgol fuddiol iawn i bawb. Diolch Dee!

Gwobr gan yr Uchel Siryf.

Gwahoddwyd y Pennaeth a dau ddisgybl o flwyddyn 6, sef Auryrn ac Enlli, i Seremoni Wobrwyd yr Uchel Siryf yn Llys y Goron yng Nghaernarfon ddiwedd mis Mawrth. Derbyniodd yr ysgol dystysgrif teilyngdod am y gwaith clodwiw a wnaed i Atal Trosedd yn y cartref.

Noson Bingo. Cafwyd ymateb gwyh i'r noson bingo a gynhaliwyd cyn y Pasg ac roedd y plant werth eu gweld yn eu hetiau Pasg addurnedig. Braf iawn oedd gweld gymaint o rieni yn bresennol. Gwnaed elw anrhydeddus o £400.00. Diolch i aelodau'r Pwyllgor Rhieni ac Athrawon a weithiodd yn galed i drefnu'r noson. Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio ar gyfer prynu setiau clustffonau a meiciau siarad ar gyfer y cyfrifiaduron. Gwerthfawrogn eich cefnogaeth.

Clwb Garddio'r Ysgol. Mae Clwb Garddio'r Ysgol yn mynd o nerth i nerth a braf iawn yw gweld cymaint o rieni yn helpu'r plant ar bawniau dydd Gwener. Rydym wedi derbyn tŷ gwydr plastig gan Fron Goch. Bu Mari, mam Cai, yn plannu hadau gyda phlant y Babanod a byddwn yn gallu eu meithrin yn y tŷ gwydr a thyfu tomatos ar gyfer yr haf.

Diolch hefyd i Jim (tad Max a Tanwen), Iwan a Delyth (tad a mam Esyllt, Gwion a Mabon), Marie (mam Ifan), Haf (mam Sam), Ceri (mam Rhona a Mair ac Anna) am gydweithio gyda'r

plant. Hoffem ddiolch hefyd o waelod calon i Karen (mam Iolo), am ei chyfraniadau ar gyfer yr ardd. Diolch yn fawr! **Gêm Mathemateg 24.** Hoffem longyfarch tîm yr ysgol sef Tim, Tara, Enlli a Cai o flwyddyn 5 a 6 a ddaeth yn ail yng Nghystadleuaeth Mathemateg Gêm 24 ym Mhorthmadog nos Fercher.

Cyflwynwyd tystysgrifau a medalau i'r plant a bydd Tim, Enlli a Cai yn cynrychioli ysgolion Gwynedd yn Nhwrnament Gogledd Cymru ym Mhlas Menai yn ystod y mis nesaf. Gwych! Da iawn chi!

Sêr y Teledu. Llongyfarchiadau i 6 o blant blwyddyn 5 a 6, sef Tim, Kushla, Tomos Morgan, Enlli, Morgan a Cai sydd wedi cael eu dewis i gymryd rhan mewn rhaglen natur newydd ar S4C. Edrychwn ymlaen i'ch gweld ar y sgrin!!

Sioe a Gweithdy. Fore dydd Gwener Mai y 5ed daeth Idris Morris Jones (Jac y Jwc) a Cathrin Aran i gynnal gweithdy rhythm gyda phlant blwyddyn 5 a 6 gan berfformio sioe Jac a'r Blwch Aur i'r Adran Iau cyn cinio. Roedd y plant wedi eu hudo ac yn gofyn 'plis plis gawn nhw ddod 'nôl!' Cafwyd sioe arbennig.

Ymweld â Chanolfan Addysg Amgylcheddol Alwen yng Ngherrig y Drudion. Bu plant blwyddyn yr Aran Iau ar ymweliad â'r ganolfan uchod ddechrau Mai. Aeth blwyddyn 5 a 6 yno ddydd Llun, Mai y 10fed, a blwyddyn 3 a 4 yr wythnos ganlynol. Cawsant ddiwrnod llawn gweithgareddau yn ogystal â cherdded ar yr argae ac ymweld â'r ffatri ddŵr. Ond yn sicr, uchafbwynt yr ymweliad oedd cael cyfle i weld gwaith celf a wnaeth plant blwyddyn 5. Ddechrau'r flwyddyn treuliodd y plant dridiau yn Galeri yng

Nghaernarfon mewn gweithdy celf gyda'r arlunydd.

Clwb Cant Ysgol Waunfawr.

Diolch i'r rhieni hynny sydd wedi anfon pres aelodaeth Clwb Cant Ysgol Waunfawr. Ar hyn o bryd mae tua hanner cant o rieni wedi ymuno â chlwb cant yr ysgol ond rydym angen mwy o aelodau i wneud y clwb yn llwyddiannus. Felly os oes unrhyw un arall yn y pentref sy'n awyddus i ymuno cysylltwch â'r ysgol ar 650451. Diolch.

Dyddiadau i'w cadw mewn cof:

- Twrnament Rygbi, dydd Mercher 19eg o Fai
 - Cyfarfod o'r Llywodraethwyr nos Fercher, Mai y 26ain am 6.30pm
 - Gala Nofio, dydd Iau Mai yr 20fed
 - Sioe Diogelwch Ffyrdd, Mai yr 28ain
- CLWB 300. Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Ebrill: £30: Janet Smith, Rhoslan; £20: Tegid Pritchard, Min y Grug; £10: Aled Taylor,



Mae pobl dros 50 oed yn ymddiried yng nghynhyrchion a gwasanaethau Age Concern

Yswiriant Cartref

Yswiriant Cerbydau a Diffyg ar y Modur

Yswiriant Teithio

Cynllunio Angladd

Cyflenwadau Trydan a Nwy

Am fwy o wybodaeth ymwelwch â ni yn:

Age Concern Gwynedd a Môn
Ty Seiont, Ffordd Santes Helen
Caernarfon, Gwynedd LL55 2YD

01286 678310

gan ddyfynnu'r cyfeirnod: Eco'r Wyddfa

AGE
Concern

Os bydddech yn cysylltu â swyddfa Age Concern, bydddech yn ymwneud â chynhyrchion a gwasanaethau Age Concern Enterprises Limited (ACEnt). Mae ACEnt wedi ei awdurdodi gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FSA) ar gyfer cyfrngiad yswiriant. Mae'r Age Concern uchod yn elusen gofrestrig.

Siop Waunfawr

(Howard a Debbie)

**Pay Point, Papur Newydd,
Cardiau Cymraeg, Cylchgronau,
Bwydydd, Nwyddau Tŷ**

Ffôn: **(01286) 650834**

Diolch am gefnogi'r fenter newydd

ar agor **7.30 - 6.30**

8.00 - 6.00 (Sadwrn)

9.00 - 12.00 (Sul)

e-bost: siopwaunfawr@live.com



Problem gyda'ch cyfrifiadur?

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch â **Gomer Roberts**

Ffôn: **01286 870462**

Symudol: **07962 712368**

Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!

Am gymorth:

- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli



*Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups*

cysylltwch â Mantell Gwynedd

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol

ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com

01286 672626 neu 01341 422575

Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfinedig drwy Warant 3420271

10 Dôl Erddi.

DIOLCH. Dymuna Mary, Llwyn Afon, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd tuag ati tra bu yn yr ysbyty ac am y gefnogaeth a gafodd ar ôl dod adref.

Diolch am y cardiau, blodau, galwadau ffôn a'r anrhegion. Diolch hefyd i staff Ward Tegid, Ysbyty Gwynedd, am eu gofal caredig.

PRIODASAU. Dymunwn bob hapusrwydd i dri pâr ifanc o'r pentref ar eu priodas yn ystod y mis.

Dydd Sadwrn, Mai cyntaf, yn Eglwys Clynnog, priodwyd Heledd Elfryn ac Aled Davies Jones o Gaernarfon.

Yn yr Eidal y priodwyd Dr Huw Gwilym a Maria o Ddeiniolen. Maent erbyn hyn yn byw yn Preswylfa.

Mynd dramor i briodi wnaeth Ceryl a Chris, Coed Aeron, hefyd.

Llongyfarchiadau i chi i gyd a phob dymuniad da ar eich priodas.

GENEDIGAETH.

Llongyfarchiadau i Sarah a Keith Povey, Ty'n Llwyn, ar enedigaeth merch fach, Megan. Wyres i Mrs Meirwen Thomas, Syrjyri, Liverpool House a'i phriod, Dick.

DATHLU PEN-BLWYDD. Llongyfarchiadau i Russell Williams, Tal Afon, fu'n dathlu

cyrraedd ei un ar hugain mlwydd oed, ac hefyd i Mr Gwilym Hughes, Bryn Peris, fu'n dathlu cyrraedd ei 90 mlwydd oed. Dymunwn y gorau i'r ddau ohonoch i'r blynyddoedd i ddod.

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion cynhesaf at Llywela Morris, Stad Tref Eilian, sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Gwynedd.

Yn ystod y mis, fe ddisgynnodd tair o ferched y pentref: Mrs Jane Roberts, Glaslyn, Stad Bro Waun; Mrs Marian Williams, 18 Stad Tŷ Hen a Mrs Mair Williams, Fferm Bod Hyfryd. Gobeithio wir eich bod wedi dod atoch eich hun ac yn gwella erbyn hyn.

EGLWYS Y WAUN. Cynhelir y gwasanaethau canlynol yn ystod Mai a Mehefin:

Mai 30: Y Gweinidog, Parch Gwenda Richards
Meh 6: Parch Dafydd Ll. Hughes

13: Parch Gwenda Richards

20: Mr Owen Aneurin Owen

27: Mr John Roberts, Tŷ Hen, Waunfawr.

Bydd y rhifyn nesaf o'r Eco, ar ddiwedd Mehefin, yr un olaf cyn gwyliau'r haf. Felly, os oes digwyddiadau/ gweithgareddau yn ystod misoedd Gorffennaf ac Awst, dowch â'r manylion erbyn canol mis Mehefin os ydych am eu hysbysebu yn yr Eco. Diolch..



Un diwrnod, fe drodd Valerie, merch Chris ac Arnold Roberts, Stad Bryn Golau, i siop hen bethau yn nhref Sheffield (ble mae'n byw) ac wrth edrych o'i chwmpas er mawr syndod iddi daeth o hyd i'r cerdyn post yma o'i phentref genedigol. Dydi'r golygfeydd ddim wedi newid

rhyw lawer, ond mae un peth mawr sy'n amlwg – does dim un car yn symud nac wedi ei barcio o un pen i'r llall i'r ffordd fawr drwy'r pentref. Ac rydym erbyn hyn yn sillafu enw'r pentref yn wahanol, a does yna ddim Swyddfa Bost



www.fframia.com

FFRAMIA
Parc Padarn, Llanberis
(01286) 870922
www.fframia.com

Gwasanaeth Fframio Lluniau

Dewis eang o luniau yn yr Oriel ac ar y wefan
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy.

LLANRUG

Eryl Roberts. 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

MARWOLAETH. Bu farw Griffith Roberts, Tŷ Gwyn, Llanrug, yn dawel yn Ysbyty Gwynedd ar Fai 2ail 2010 yn 83 mlwydd oed. Yr oedd yn ŵr i'r ddiweddar Gwyneth.

Cynhaliwyd yr angladd ar y 7fed o Fai, gyda gwasanaeth yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis, ac yn dilyn ym mynwent Sant Michael, Llanrug. Gwasanaethwyd gan y Parchedig R Townsend.

Diolch yn ddiffuant i bawb am eu caredigrwydd tuag at y teulu yn eu profedigaeth. Mae'r teulu yn diolch am y gofal arbennig a dderbyniodd Griffith gan feddygon a nyrsys Waunfawr/Llanrug, Ysbyty Gwynedd a Hafan Menai. Diolch i'r Parchedig R. Townsend, W. Munroe wrth yr organ, R. Jones am ei waith yn yr Eglwys ac i drefnwyr yr angladd, Gwynfor Jones o E.W. Pritchard, Llanberis.

YR YSGOL GYNRADD

Llongyfarchiadau i Sion Eifion Land ar ennill y drydedd wobwr yn Eisteddfod yr Urdd eleni am ei brint lliw yn yr adran ffotograffiaeth.

Bu Blwyddyn 6 ar gwrs cyffrous iawn yn dwyn y teitl 'Môr a Mynydd' ym Mhlas Menai, ble buont am bedwar diwrnod yn derbyn hyfforddiant caiaio, hwylyrddio, hwylio a chanwio. Roeddent wrth eu boddau!

Llongyfarchiadau i Mrs Nia Edwards ar enedigaeth merch fach, Alaw Mai. Pob dymuniad da iddynt fel teulu.

Bu Blynyddoedd 0, 1 a 2 ar daith i Gae'r Gors, Rhosgadfan, ble buont yn dysgu hen hwiangerddi Cymraeg.

Llongyfarchiadau i Anti Jaqueline ar ddathlu pen-blwydd pwysig yn ddiweddar.

Bu'r tîm pêl-rwyd yn cystadlu ynn ngemau terfynol yr Urdd yn Aberystwyth.

Diolch i Miss Catrin Jones am eu hyfforddi.

Bu tîm pêl-droed y bechgyn yn cymryd rhan yng ngemau'r Urdd ym Mhorthmadog. Diolch i Mr Wyn Griffiths am eu hyfforddi.

Daeth Kieran Forrest o Flwyddyn 4 yn gyntaf mewn ras traws gwlad a gynhaliwyd gan yr Urdd ar gaeau'r Faenol. Ac wedi teithio i Aberystwyth ar gyfer y rasys terfynol, daeth buddugoliaeth arall i'w ran, ac ennill y wobwr gyntaf yn genedlaethol.

Mae Blwyddyn 6 yn derbyn hyfforddiant beicio ar hyn o bryd, ac yn dysgu sgiliau hynod o bwysig ynglŷn â diogelwch wrth feicio. Diolch i Mrs Rhian Whiteside Thomas a'i tîm am yr hyfforddiant.

LLONGYFARCHIADAU i Siân Angharad Williams, 35 Nant y Glyn ar lwyddo yn yr arholiad Piano Gradd 5 gyda theilyngdod.

PLAID CYMRU. Enillwyr y Clwb Cant oedd L. 1. Mrs Megan Roberts; 2. Mrs Eileen Jones.

SEFYDLIAD COFFA. Enillwyr Clwb Cant mis Ebrill oedd: £20: Mr A. Parry, Bryn Heli; £7: Mrs M. Roberts, 7 Afon Rhos; £5: Mrs M. Parry, Bryn Heli.

DIOLCHIADAU. Dymuna Naomi Griffiths, Hafan Elan, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, galwadau ffôn, ymweliadau a'r rhoddion yn dilyn ei chyfnod yn Ysbyty Gwynedd a Whiston, Lerpwl. Diolch yn fawr.

ARHOLIADAU. Pob dymuniad da i holl blant yr ysgol Uwchradd a myfyrwyr y colegau ar eu arholiadau.

MERCHED Y WAWR. Estynnwyd croeso cynnes i bawb i'r Cyfarfod Blynyddol gan y Llywydd, Margaret Parry, a chychwynnwyd y noson gyda

R.M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR

PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846

E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE, Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU

Chân y Mudiad. Darllenwyd Cofnodion 2009 ac fe'u cafwyd yn gywir. Bu'r dasg o ddewis swyddogion ac aelodau Pwyllgor 2010-2011 yn rhwydd dros ben, gyda Enid Whiteside Thomas yn Llywydd Anrhydeddus; Llywydd: Menna, Is-lywydd: Bethanne; Is-ysgrifennydd: Gwenda Roberts; Trysorydd: Ann Lloyd; Is-drysorydd: Meirwen Lloyd; Gohebwyr y Wasg: Ann Ifans a Mary Roberts; Dosbarthwr y Wawr: Olwen. Pedwar aelod y pwyllgor: Phyllis, Mair Huws, Margaret Christian ac Eryl. Cynrychiolwyr y Pwyllgorau Rhanbarth yw Mair a Margaret: Pwyllgor yr Anabl; Julie a Linda: Celf a Chrefft; Phyllis a Myfanwy: Dysgwyr.

Mawr ddiolch i Phyllis, Pat ac Ann Thomas am wneud y cais am Arian Loteri gan sicrhau £1,000 i'w wario ar gyfer llogi bysiau ac at danwydd aelodau a gynrychiolai'r gangen mewn Cwis Hwyl a Bowllo Deg. Bu'r arian yn sicr o fudd ar gyfer ein siaradwyr gwadd. Bydd yr arian hefyd yn hwb at gost bws ein Trip Blynnyddol. Byddwn yn ymweld â **Moelfre, ar nos Fawrth, 8 Mehefin**, gan gychwyn o Sgwâr Llanrug am 5.30 ac yna i Benisarwaun. Bydd y Parch Huw John Huws yn ein cyfarfod yn Eglwys Llanallgo i olrhain hanes y Royal Charter a'n tywys o gwmpas y fynwent. Ceir cyfle i ymweld ag Amgueddfa'r Bad Achub a chyfle, os dymunir, i gerdded ychydig ar hyd yr arfordir. Bydd Bwffe yn dilyn yn 'Pantri Ann' tua 8 o'r gloch. Mawr hyderir y ceir tywydd braf.

Bu rhai aelodau o'r gangen yng Ngŵyl y Pum Rhanbarth ddydd Sadwrn, 8 Mai, yn Ysgol Friars, Bangor. Llywiwyd y diwrnod gan Mary Huws, Llywydd y Pum Rhanbarth./Roedd rhywbeth at ddant pawb ar y rhaglen amrywiol.

Cafwyd cychwyn soniarus i'r Wyl gyda Cherddorfa William

Mathias a dotiai pawb at dalentau y cerddorion ifanc.

Difyr tu hwnt fu sgwrs Gareth Roberts, yn enedigol o Lanrug, ond yn byw yn Neiniolen erbyn hyn. 'Cerdded at Iechyd' oedd ei neges gynhwysfawr.

Wedi llawdriniaeth fawr ar ei galon sylweddolodd Gareth mor amhrisiadwy yw iechyd a bod cerdded yn ddyddiol yn hwb fawr i gadw'n iach. Dangoswyd sleidiau ardderchog ganddo am yr amgylchfyd a chyfeiriodd at leoliadau a llwybrau Plwyf Llanddeiniolen a hanesion o Oes yr Iâ, y Rhufeiniaid, y Chwarel a llawer mwy. Bydd map o lwybrau Plwyf Llanrug allan yn fuan. Y gobaith mawr yw y byddwn ninnau yn cael pleser o gerdded ein llwybrau a darganfod hanes cyfoethog ein plwyfi a chadw'r llwybrau yn agored i'r genhedlaeth nesaf.

Yn ystod yr egwyl cafwyd cyfle i ddotio at emwaith cywrair o arian, y Ffossil Blatic Amber ac Aur Cymru gan 'Gemwaith Menai'. Roedd y rhelyw ohonynt o batrwm Celtaidd ac yn hynod gywrair.

Yn ddi-os fe fwynhaodd pawb arlwy y Bwffe ac roedd digon i wala tua 400 o aelodau.

Thema'r prynhawn oedd 'Deffro'r Gwanwyn' a chafwyd cynghorion ardderchog gan Carol Gerecke Williams, sy'n rheolwraig yng Nghanolfan Gerddi Seiont, Llanrug.

I ddilyn daeth 'Dyn y Patch, dyn yr ieir a dyn y gwau' i ddiddori pawb. Fe ddaeth Russel Jones â thair ffrind hefo fo – tair iâr ufudd tu hwnt. Roedd y Coaching – clamp o iâr lwyd yn amlwg wedi cael shampŵ a sychwr gwallt cyn dod. Roedd ei phlu a phen ei thraed yn fendigedig. Roedd y Frenhines Fictoria yn magu rhain, meddai Russel. Roedd Sheila yr iâr Orpington, yn bictiwr o liw cochlyd ac yn hynod o ddistaw ond yn nodio'i phen yn awdurdodol ar y

gynulleidfa. Ond doedd yr iâr fach lwyd ddim mor hapus – fe hedfanodd oddi ar y bwrdd a Russel ar ei hól fel bwled allan o wn. Gan fod Russel yn nyddu ei wlân ei hun dangoswyd y gwahanol wlân a'r siwmpwr las gynnes a wnaeth i Bleddyn, ei fab bach newydd anedig.

I orffen yr Wyl cafwyd gwledd i'r llygaid gyda arddangosfeydd gosod blodau gan Norman Evans. Fe gyflwynwyd y trefniant blodau hardd i'r Llywydd Cenedlaethol, Dr Eysyllt Jones. Talwyd y diolchiadau gan yr Is-lywydd. I gloi yr Wyl lwyddiannus, fe ganwyd Cân y Mudiad.

Atgoffir pawb fod Bore Coffi gan Bwyllgor yr Anabl ar 11 Mehefin. Pris tocyn: £1.

Cynhelir **Taith Gerdded Noddedig am 2.00 yn Llandudno ar 19 Mehefin** tuag at yr Ambiwllans Awyr a Merched y Wawr.

Dosbarthwyd llyfryn 'Mae gen ti ddewis' gyda rhestr gynhwysfawr i ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg – rhestrir elusennau, cyfleusterau, banciau, llinellau cymorth a sefydliadau cyhoeddus. Oes 'mae gennym ddewis'. Defnyddiwn ef.

Gwestai ein noson oedd y llenor a'r actores, Mari Emlyn, o'r Felinheli. Amlygwyd ei dawn fel llenor ac actores yn ei sgwrs hynod ddifyr am ei hen daid, Syr O.M. Edwards 'llusern dlos y werin dlawd (J.J. Williams).

Bu'n canolbwyntio ar ferched a ddylanwadodd ar ei fywyd, fel ei fam ac, yn sicr, ei wraig, Elin.

Priodwyd O.M. Ac Elin yn 1891 – roedd Elin 'yn un o'r genethod bach cywiraf, mwyaf serchog a mwyaf didwyll fu yn y byd erioed – tywysoges a chalon lân.' Yn ystod eu bywyd carwriaethol a phriodasol fe sgrifennodd O.M. ac Elin o gwmpas 9,000 o lythyrau at ei gilydd. 'Bu i O.M. Edwards fywyd a gyrfa amrywiol, bu'n fyfyrwr yng Ngholeg y Bala, Aberystwyth, Glasgow a Choleg Balliol, Rhydychen. Yn 1907 penodwyd ef yn Brif Arolygydd Ysgolion Cymru – y cyntaf i ddal y swydd bwysig honno.'

Daeth O.M. i gysylltiad ag Elizabeth Morgan, awdur Gwymon y Môr, ac ef a sicrhodd gyhoeddi ei gwaith gyntaf yng Nghymru. Yn ôl Elizabeth Morgan, 'Ef yw fy

athro ieithyddol ac wrth ei draed yr hoffwn fyw!'

Bu ymgyrch danbaid gan y 'suffragettes' i gael pleidlais i ferched yn 1909 a bu cais am siaradwyr Cymraeg ar eu rhan o ddiddordeb mawr i O.M.

Ymfalchiai Mari Emlyn yn ei thras: ei hen daid, Syr O.M.; ei thaid, Syr Ifan ap Owen Edwards; a'i thad, Owen Edwards. Do, fe ddaeth ei hen daid 'mab y tyddynnwr yn fyfyrwr, yn bregethwr, yn Gymrawd Coleg, yn olygydd toreithiog, yn Arolygwr ei Fawrhydi, yn dirfeddiannwr, ac yn Farchog.' Ac, yn ôl anerchiad y Parch Tegla Davies yng nghyfarfod canmlwyddiant O.M. ar 3 Mai, 1959, 'Nid dyfod i Gymru i achub Cymru a wnaeth ond i wneud Cymru yn werth i'w hachub! Dyna pam y mae ein plant yn siarad Cymraeg.' (Cyfres Bro a Bywyd)

'Yn Eisteddfod Genedlaethol Castell-nedd 1918, O.M. Edwards oedd y Llywydd. Fe'i cyflwynwyd i'r gynulleidfa fel "Gwaredwr Mawr y Gymraeg". Prin yr haeddodd neb yn ei gyfnod na'c mewn llawer cyfnod arall y disgrifiad hwnnw'n fwy.' (Pigion 2000) Diolchwyd i Mari am noson hynod o ddifyr gan Margaret Parry.

Diolch i Pat, Meryl a Nan am ofalu am y baned a llongyfarchiadau i Phyllis ar ennill y raffl.

Cofiwch am y Trip i Foelfre, nos Fawrth, 8 Mehefin i gychwyn o Sgwâr Llanrug am 5.30.

CAPEL Y RHOS

Mehefin 6 - Parch. Marcus W. Robinson
Mehefin 13 - Parch. W. R. Williams
Mehefin 20 - Prch. Marcus W. Robinson
Mehefin 27 - Mrs. Mair Penri Jones

ECO'R WYDDFA


ECO drwy'r post!

Cysylltwch ag
Olwen Hughes,
Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

SKODA
BMW
PEUGEOT
FIAT

AUDI SEAT PORSCHE VOLKSWAGEN

DIESEL PETROL CHWISTRELLIAD ARBENIGWYR



***Cymhwyter*
BOSCH**

**i roi gwasanaeth i'ch car
heb effeithio ar
y warant***

**Dewis arall dibynadwy
yn lle'r Prif Ddeliwr**

* Gyda rhai amodau

Trwsio cerbydau a gwerthu partiau sbâr
Lle da y gellwch ei fforddio

Stâd Cibyn, Caernarfon, Gwynedd LL55 2BD
(01286) 673559 www.a-v-w.co.uk

Shell HELIX

LA V W

AIR CON GWASANAETH BATRIS

VOLVO MERCEDES SAAB

MEWNFORIO
YR ALMAEN
UNIONI OLWYNION CAM BELTS
TRYDANOL
SWEDEN

Sychlanhau • Altro
Ailwnio
Gwasanaeth
Casglu a Danfon

54 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: **870088**

SWIGOD A SEBON



GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

PWYLLGOR APEL EISTEDDFOD YR URDD ERYRI 2012. Yn ystod y pwyllgor diwethaf trafodwyd ffyrdd o godi arian tuag at y nod o £5000.

Y tri gweithgaredd rydym yn gobeithio eu trefnu yw noson o Dalwrn y Beirdd yn mis Hydref 2010, noson o adloniant yn mis Ionawr 2011, a diwrnod dawnsio nodedig yn nhymor y gwanwyn y flwyddyn nesaf.

Yn ychwanegol at hyn bydd pob tŷ yn y pentref yn derbyn ffurflen gyfamodi fydd yn galluogi y rhai sy'n dymuno cyfrannu yn ariannol. Gobeithir dosbarthu y rhain ar ddechrau mis Mehefin.

LLONGYFARCHIADAU i Robin Bethel, 6 Bro Rhos ar achlysur dathlu ei ben-blwydd yn 90 oed yn ddiweddar.

LLONGYFARCHIADAU mawr i Delyth Morris am redeg Marathon Llundain yn ddiweddar. Dymuna Delyth diolch i bawb am ei chefnogi tra'n ymarfer tuag at y Marathon. Roedd yn brofiad anhygoel a diolch i bawb am fod mor garedig.



CLWB BRO BETHEL. Buddug Jones, Caernarfon, oedd y siaradwraig wadd y mis yma ac roedd wedi dod â'i chi tywys, Ivy, gyda hi. Croesawyd hi yn

gynnes iawn gan y Llywydd, y Prifardd Selwyn Griffith, a bu'n siarad yn ddifyr iawn â phawb am ei phrofiad o fod yn berchen ar gi tywys. Ar hyn o bryd mae tua 4,700 o gŵn tywys yn y Deyrnas Unedig ac mae'n costio £10 y dydd i hyfforddi a chynnal pob ci tywys. Wrth reswm, mae'r cŵn hyn yn gwneud gwahaniaeth mawr i fywyd person sydd wedi colli ei olwg ac yn rhoi annibyniaeth a rhyddid i filoedd o bobl sydd â nam golwg. Diolchwyd i Buddug Jones gan Jenkin Griffiths, a Margaret Williams a Maud Williams oedd yng ngofal y baned. Y trip sydd nesaf a hynny ar Fehefin 8fed. yn cychwyn am 12.00.

CAPEL Y CYSEGR. Cafwyd cyngerdd safonol iawn yn ddiweddar, wedi ei drefnu gan Swyddogion Y Cysegr, gan grŵp offerynnol Pres Môn. Yn dilyn y croeso i bawb gan y Gweinidog, Y Parchedig Marcus Wyn Robinson, cyflwynwyd eitemau amrywiol ganddynt o gyfnod y Dadeni hyd at y presennol. Roedd pob un yn feistr ar ei offeryn a chafwyd unawdau gan bedwar o'r aelodau sef Paul Hughes, Gavin Saynor, Nicholas Hughes ac Aled Williams. Braf hefyd oedd gweld cyfeillion o Abergynolwyn a Harlech yno i gefnogi'r noson. Diolchodd y Gweinidog am wled arbennig a gwnaethpwyd elw o £372.60c.

MERCHED Y WAWR. Cerdded o gwmpas Saron oedd hanes yr aelodau yng nghyfarfod y mis yma a hynny yng nghwmni Gareth Roberts o Dinorwig. Wrth stopio fan hyn a fan draw cawsom wybodaeth hanesyddol ar sut yr oedd y gwahanol fannau wedi newid dros y blynyddoedd. Rhaid oedd aros tu allan i Gorffwysfa, cartref un o feibion enwocaf y cylch, sef W. J. Griffith, ac yna

troedio'n ôl i'r Cysegr lle roedd y baned yn dderbyniol iawn. Yn dilyn y baned cafwyd sgwrs gan Gareth Roberts gan sôn yn bennaf am y pwysigrwydd o gadw'r corff yn iach drwy geisio cerdded rhywfaint bob dydd. Soniodd hefyd am y daith a gyflawnodd ddwy flynedd yn ôl ar hyd y ffordd Rufeinig o Gaernarfon i Gaer.

Mair Read oedd yn llywyddu a chydymdeimlwyd yn fawr â Sheila Roberts yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer a llongyfarchwyd Delyth, merch Edwina Morris, ar gwblhau Marathon Llundain mewn amser o bedair awr a hanner. Y mis nesaf bydd gweithgareddau am eleni yn dod i ben gyda swper yn Nhafarn y Gors, Pentre Berw - y bws yn cychwyn o Penrhos am 7.00.

LLONGYFARCHIADAU a phob dymuniad da i Gwenan Jones, 10 Tan y Buarth, Bethel a Nicholas Jackson o Douglas, Ynys Manaw, ar dathlu eu priodas ar 17 Ebrill yn Eglwys Llanddeiniolen. Maent wedi ymgartrefu yn Lerpwl.



LLONGYFARCHIADAU FIL i dîm pêl-droed dan 16 oed y pentref am gipio Cwpan dan 16 gogledd Cymru drwy drechu Tywyn draw ar faes Dinbych. Bu cryn ganmol ar eu dull o chwarae drwy'r tymor hefyd.

Hwy hefyd yw pencampwyr Cynghair Gwynedd ac erbyn i'r rhifyn hwn ymddangos byddant wedi cystadlu am Gwpan y Gynghair. Braf sylwi fod cynchwaraewyr o'r oedran yma erbyn hyn yn aelodau cyson o dîm hyn y pentref yng Nghynghair Gwynedd.

DYMUNWN yn dda i Daniel Bell fydd yn gadael yr ysgol eleni ac yn ymuno â chlwb Oldham Athletic. Roedd sawl aelod o'r tîm hefyd yn aelodau o dimau dan 16 ac 18 ysgol Brynrefail a gyrhaeddodd rowndiau terfynol Cwpan Cymru.


FISITOR

I'r Dre daeth fodan o dras - i ista yn castell - embaras!

Yna sbin ar trên Dinas,

Yn pown 'nice town', deud ta-tas.

Mae'n rhaid i mi siarad hefo rhywun



Y SAMARIAID
(01248) 674985

Cofiwch ddefnyddio

SWYDDFA POST BETHEL

(01248) 670261

Cewch groeso cynnes gan **CLED A SUSAN**

Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yswiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.

A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant • Tynnu Pres (Cashback)

ORIAU AGOR

6 a.m.-7.30 p.m.

(Llun-Sadwrn)

6 a.m.-3 p.m. (Sul)

BYSUS RHIWLAS

Bysus bach a mawr ar gael ar gyfer pob math o logi preifat - nosweithiau allan, partiön, tripiâu ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

Blodau Lieneke

**Blodau Priodas
Priodferch
Lleoliad • Byrddau**

Cae Rhydau Pontrug
Caernarfon LL55 2TN

Symudol 7510 511 631

Gwefan- <http://www.blomstervill.no>
E-bost- blomstervill@robin.no



Ar Ben Arall y Lein

Mae tipyn o grafu pen wedi bod am beth i roi sylw iddo'r mis yma, gan nad oes dim o glaw o gwbl wedi disgyn dros y chwe wythnos diwethaf a thrwy hyn mae'r afonydd i gyd yn dangos ei hesgyrn. Roedd cryn bryder y buasai'r sychder yn cael effaith andwyol ar y nifer o leisiad a fyddai'n dechrau ar ei taith am y môr ond, diolch i'r drefn, yn ôl be 'rwyf wedi'i weld fy hun ac hefyd, yn bwysicach byth, yr adroddiadau 'rwyf wedi'u ei derbyn ar hyd y Seiont, mae'r nifer eleni i weld yn well nag ers llawer blwyddyn. Cawn weld be fydd effaith hyn yn ystod tymor 2011.

Dros y flwyddyn y problem fwyaf sydd wedi effeithio ar y Gymdeithas yw'r hyn sy'n berthnasol â Llyn Padarn. Mae yn ddigon amlwg i pawb erbyn heddiw mai'r prif achos yw'r llwyth gormodol o ffosffadâu sy'n cael ei arllwys i'r dyfroedd o waith carthffos Llanberis. Mae Dŵr Cymru yn bendant eu bod yn gweithredu o fewn gofynion eu caniatâd arllwys, ac mae Asiantaeth yr Amgylchedd hefyd yr un mor bendant nad yw y caniatâd fel ac y mae yn cael ei dorri.

Fodd bynnag, ac efallai i geiso ymateb i'r teimladau cryf yn y fro fod pethau yn llusgo, mae nodyn yn tynhau yr arllwysion wedi ei roi gan yr asiantaeth i Ddŵr Cymru. Ydi'r cwmni yma am gytuno i gydweithio, tybed? Ar y funud does neb yn gwybod gan fod ganddynt bedwar mis i benderfynu i gytuno neu i apelio yn erbyn y rhybudd. Felly cario 'mlaen fel arfer mae pethau.

Yn y cyfamser buasai cael gwybodaeth a oes achos llys neu beidio am gael ei gymryd yn erbyn y cwmni pan gafwyd toriad ym mhrif bibell carthffos Llanberis ar 21 Ebrill ac y gollyngwyd, o bosib, gannoedd o alwyni o garthffos heb ei drin

i'r llyn. Mae'n debyg fod mwy o ffosffadâu wedi rhedeg i'r dyfroedd y diwrnod hwnnw na fuasai'n gyfreithlon i'w ollwng am flwyddyn gyfan.

Mae cwestiwn mawr i'w ofyn am ddull gweithredu Dŵr Cymru, gan yn yr wythnosau diwethaf mae galwadau wedi eu gwneud i linell argyfwng Asiantaeth yr Amgylchedd yn mynegi pryder am ansawdd arllwysadau o waith carthffos Penisarwaun a Chaernarfon. Be ydi'r rheswm tybed? Buaswn yn meddwl fod cwmni fel hwn gyda rhaglen weithredol gref ac eglur yn ymwneud ac uwchraddio a chynnal a chadw ei asedau. Oherwydd, ar ddiwedd y dydd, mae iechyd pob un ohonom yn y dibynnu ar gywirdeb y cwmni! Mae un peth yn sicr, mae llusgo traed ofnadwy wedi bod gyda problemau Padarn. Pam gyrru pethau i'r eithaf drwy ddadlau oherwydd, yn y pendraw, gweithredu fydd raid ac anoddach byth fydd cywiro'r sefyllfa oherwydd yr holl amser mae pethau wedi llusgo ymlaen.

Ar ôl y llith yna rwy'n teimlo'n well wedi ei gael oddi ar fy mrest. Ond, wrth gwrs, mae cryn newydd da hefyd! Heddiw cefais newyddion fod ein cais am grant i brynu camfeydd ac arwyddion newydd drwy Gynllun Pysgodfeydd Cynaliadwy Cymru, sy'n cael ei redeg gan Asiantaeth yr Amgylchedd, wedi ei gymeradwyo, a hefyd fod gwahoddiad i'r clwb wneud cais am gymorth sylweddol i gynllun Pysgodfeydd Gwylt Cymru i greu angorfeydd cychod ac adeiladau lloches i 'sgotwyr. Mae cryn waith yn mynd i baratoi hyn i gyd ac, wrth gwrs, does dim sicrwydd o gwbl y bydd cymeradwyaeth ar ddiwedd y dydd.

Mae cynllunio fel hyn yn hanfodol gan fod gofynion y dyddiau yma mor uchel ac mae

cael isadeiledd o adeiladau o safon yn ei gwneud yn bosib cael ailgydio yn ein cyrsiau/hyfforddi ar faterion sy'n ymwneud â byd y pysg. Os oes unrhyw un â diddordeb mewn dilyn cwrs hyfforddi yna cysylltwch, os bydd ymateb da bydd yn bosib trefnu cwrs Cenedlaethol yn y fro.

Rhaid diolch i'r aelodau sydd o gymorth mawr yn y gwaith yma. Heb eu brwdfrydedd mi fuasai'n anodd iawn dilyn a gweithredu ar yr holl faterion sydd ar y gweill.

HUW PRICE HUGHES

UN FUNUD FACH

TELEDU AM DDIM

Mi ges i fy nhemtio. Roedd y posibilrwydd o gael teledu newydd am ddim yn ddeniadol. Roedd yna elfen o risg ynglŷn â'r cynnig wrth gwrs, gan fod rhaid prynu'r teledu i ddechrau. Ond roedd y siop yn addo y cawn i f'arian i gyd yn ôl ym mis Gorffennaf, ar yr amod bod Lloegr yn ennill Cwpan y Byd!

Ac er mawr gywilydd, am un funud fach fe wnes i ystyried y peth. Feiddiwn i fentro prynu clamp o deledu mawr drud yn y gobaith o'i gael am ddim? Allwn i gyfiawnhau'r peth trwy ddweud y byddai teledu am ddim yn rhyw fath o gysur pe digwyddai'r gwaethaf a bod Lloegr yn dod yn bencampwr byd yr haf hwn?

Penderfynu peidio wnes i, gan farnu y byddai'n anodd iawn byw efo teledu a fyddai'n f'atgoffa bob dydd o awr fawr hogia glew'r tri llew. Do, fe'm temtiwyd, ond diolch am hynny, wnes i ddim ildio. Byddai'r pris yn ormod i'w dalu. Ac nid sôn ydw i am bris y teledu ond am y perygl gwirioneddol y byddwn yr haf

hwn yn dechrau cefnogi tîm Mr Capello yn y gobaith o gael y pres y byddwn wedi ei dalu am y teledu yn ôl.

Y drwg efo temtasiynau yw ei bod mor rhwydd ildio iddyn nhw, a bod yr ildio hwnnw'n golygu gwadu'r pethau y gwyddom y dylem eu gwneud. Ac mae ildio'n golygu ein bod hefyd yn rhoi ein teyrngarwch i rywun arall. Bob tro yr ildiaf i demtasiwn rwy'n amddifadu Duw o'i hawl i fod yn Arglwydd fy mywyd, ac yn cymryd yr hawl hwnnw i mi fy hunan neu i'r Un Drwg, y Temtiwr mawr ei hun. Gan yr Arglwydd Dduw y mae'r hawl dros fy meddwl a'm geiriau a'm hymddygiad, ac wrth ei garu a'i wasanaethu y ceir gwir ddedwyddwch a rhyddid cydwybod. Ond mae

temtasiynau'n real a chryf yn ein denu mor rhwydd oddi ar y fath lwybr. Fe demtiwyd Iesu Grist, ond yn wahanol i ni fe lwyddodd ef i wrthsefyll pob temtasiwn a daflodd y Diafol ato. Gwnaeth hynny trwy nerth Duw a thrwy bwysio ar Air Duw a'i addewidion.

Roedd y mesur lleiaf o synnwyr cyffredin yn ddigon i wneud i mi wrthod y posibilrwydd o gael teledu am ddim. Mae angen mwy na hynny efo temtasiynau go iawn. Dim ond trwy nerth a gras Duw y gallwn wrthsefyll temtasiynau'r Un Drwg i wneud a meddwl pethau sy'n amharchu Duw, yn dwyn anfri arno, ac yn gywilydd a chondemniad i ni ein hunain

JOHN PRITCHARD



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Caernarfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa yna ffoniwch 01286 672076 i wneud apwyntiad neu ysgrifennwch ato-

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell
Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
williamshw@parliament.uk

Phillip Foulkes

CONTRACTIWR PLASTRO

Mewnol • Allanol
Drylining
Plastfyrddio Yn Ei Le

Ymgynghori Ac
Amcangyfrifi Am ddim



Tel. 07760393155
ebost- phillipfoulkes@hotmail.co.uk

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol
2 Stryd y Plas, Caernarfon
(01286) 672727

8 Llys Onnen, Ffordd y Llyn,
Parc Menai, Bangor
(01248) 674460

Dewch atom am gyngor ynghylch
yswariant a materion ariannol



Awdurdodir a rheolir gan yr
Awdurdod Gwasanaethau Ariannol

RHEDEG MYNYDD

Cyfes Rasys Nos Fawrth

Mae'r gystadleuaeth hon yn mynd o nerth i nerth, a mwy a mwy o redwyr yn troi allan i fwynhau ac i gystadlu. Hyd yn hyn mae bron i ddau gant o redwyr gwahanol wedi cymryd rhan mewn un neu fwy o'r rasys. Braf gweld nifer helaeth o blant, ieuencid a phobl ifanc heb sôn am yr hynafgwyr yn herio'r mynyddoedd. Dyma'r canlyniadau lleol am y tair ras diwethaf:

Mynydd Mawr, gyda 92 o redwyr yn cystadlu, Arwel Lewis (Bethel) 2il dros 50 oed; Jenny Heming (Fachwen) 2il ferch; Ali Thomas (Llanberis) merch 1af dros 40 oed; Bridget Ripley (Fachwen) 2il ferch dros 50 oed; Stel Farrar (Dinorwig) 3ydd ferch dros 50 oed; a Maggie Oliver (Dinorwig), merch 1af dros 60 oed.

Pendinas, Nant Peris, gyda 91 o redwyr yn cystadlu. Gwyn Williams (Llanberis) 2il; Paul Jenkinson (Waunfawr) 1af dros 40 oed; Arwel Lewis (Bethel) 1af dros 50 oed a thorri'r record am y cwrs; Jenny Heming (Fachwen) 3edd ferch; Dafydd Thomas (Llanrug) 1af dros 60 oed - a thorri'r record; Owain James (Deiniolen) 1af dan 16 oed; Maggie Oliver (Dinorwig) merch 1af dros 60 oed; Megan Lloyd (Pontrug) merch 1af dan 16 oed - a thorri'r record; Bridget Ripley (Fachwen) 2il ferch dros 50 oed; Stel Farrar (Dinorwig) 3edd ferch dros 50 oed; Claire Donnelly (Dinorwig) 2il ferch dan 16 oed.

Moel y Gest, gyda 69 o redwyr yn cystadlu. Paul Jenkinson yn 1af dros 40 oed; Arwel Lewis yn 2il dros 50 oed; Dafydd Thomas yn 1af dros 60 oed; Jenny Heming y ferch gyntaf a thorri record y cwrs; Ali Thomas y ferch 1af dros 40 oed; Bridget Ripley y ferch 1af dros 50 oed a Stel Farrar yn ail; a Claire Donnelly y ferch 1af dan 16 oed.

Rasys Eraill

Ras y Carneddau

Rhedwyr o Glwb Dark Peak yn Lloegr aeth â'r prif wobrau yn y ras glasurol hon, ond cafwyd peth llwyddiant lleol hefyd, gydag Arwel Lewis o Fethel yn dod yn ail yn y dosbarth i rai dros 50 oed. Roedd Jenny Heming o'r Fachwen yn ail ferch, ac Ali Thomas o Lanberis y ferch gyntaf dros 40 oed. Cafodd Alwyn Oliver o Ddinorwig anaf go ddrwg wrth redeg i lawr Yr Elen, a bu'n rhaid ei gario i'r ysbyty. Wedi nifer o bwythau i'w goes cafodd ddychwelyd gartref. Ein dymuniadau gorau iddo am adferiad buan.

Ras Moel Eilio

Eleni, roedd Ras Cribyn ym Mannau Brycheiniog yn cael ei chynnal yr un diwrnod, a honno hefyd yn rhan o Bencampwriaeth Cymru. Roedd nifer o'r rhedwyr felly yn simsanu rhwng dwy ras - cefnogi'r glasurol neu ennill pwyntiau yn y Bencampwriaeth. Daeth dau redwr o'r fro yn ôl o dde Cymru gyda llwyddiant: Jenny Heming o'r Fachwen yn ferch gyntaf, a Paul Jenkinson o'r Waunfawr yn ail dros 40 oed, dim ond 4 eiliad o'r safle cyntaf! Roedd llwyddiannau lleol hefyd yn Llanberis, a 73 o redwyr wedi gwrthsefyll y demtasiwn o fudo tua'r de. Daeth Ian Ridgeway, Nant Peris yn bedwerydd yn Ras Moel Eilio, Arwel Lewis o Fethel yn nawfed yn y ras ac yn gyntaf dros 50 oed, Yn dynn wrth ei sodlau roedd Dafydd Williams, Llanberis (1af dros 40 oed) a Noel Craine, Llanberis (2il dros 40 oed). Daeth Maggie Oliver o Ddinorwig yn ferch gyntaf dros 60 oed.

'Race for Life' Caernarfon

Cynhaliwyd y 'ras' hon yng Nghaernarfon yn ystod y mis, gyda channoedd o ferched yn

cymryd rhan - rhai yn y bore, a'r lleill yn y pawns. Golygfa anhygoel oedd gweld môr o binc yn teithio fel ton anferth ar hyd y Foryd i gyfeiriad y Clwb Golff, a thonnau llai o binc yn dychwelyd. Llongyfarchiadau i bob un a gwblhaodd y cwrs a

chodi arian amhrisiadwy i Ymchwil Cancr y Fron. Roedd nifer go dda o'r merched yn rhedeg o ddifrif, a'r ferch gyntaf i gyrraedd yn ôl i gaeau chwarae Coed Alun oedd Siwan Elenid o Gaethro. Daeth Rhian Thomas o Lanrug yn chweched.

Y DWBWL TREBL

Y mae'r rhifyn yma yn frith o lwyddiannau timau ieuencid pêl-droed yr ardal. A fu'r fath gyfnod? A braf cofnodi fod deunydd crai i dimau hyn yr ardal. Hefyd, cafodd timau hyn Llanrug a Llanberis ddiwedd glo rhyfeddol i'r tymor gan orffen yn uchel yn eu cynghrair.

Ond draw ym Methel mae tim dartiau y Bedol yn dathlu tymor rhyfeddol. Yn y noson wobrwyo i Gynghrair Caernarfon a'r Cylch bydd chwe tîws yn dychwelyd i'r Bedol. Nid yw Cled 'Ferguson' Jones, rheolwr y tim yn cofio'r fath dymor. Gobeithiwn gael llun o'r garfan a'u tlysau yn y rhifyn nesaf o'r

Eco.

Yn y cystadlaethau nos Lun arferol cipiwyd Pencampwriaeth Adran 2 a phencampwriaeth y Dyblau 601. Yna daeth Cwpan y Gynghrair i'w meddiant. Daeth cryn lwyddiant hefyd i unigolion. Cyflwynir y tîws i'r unigolyn gyda record diguro orau dros y tymor i Darren Bingham. Yna bu Darren a'i bartner, Wayne Deemer, yn llwyddiannus yn y gystadleuaeth agored i ddyblau o adrannau 1 a 2. Yn y gystadleuaeth agored i unigolion yn adran 2 daeth y tîws i Ryan Williams. Tipyn o gamp, ac mae cryn edrych ymlaen i'r parti dartiau!



Cyflwyniad i Sylwebu/Cyfieithu ar y pryd

13 a 17 Mai 2010 4.30 - 7.30 yr hwyr

Y Ganolfan, Porthmadog

Cost : Rhad ac am Ddim

(Bwyd ysgafn ar gael 4.00 - 4.30 yr hwyr)

Hyfforddwr: Megan Tomos

Amcan y gweithdy:

Rydym yn chwilio am griw o wirfoddolwyr sydd am gael eu hyfforddi yn y grefft o Sylwebu.

Dyma gwrs newydd sbon, sy'n rhoi cyfle i chi i gael mwy o hyder wrth ddelio gyda phobl ddi-Gymraeg mewn cyfarfodydd cymunedol. Yn y bôn byddwch yn dysgu sgiliau sylfaenol cyfieithu ar y pryd, a fydd yn eich galluogi i dywys pobl sy'n ddi-hyder yn y Gymraeg i ddod yn rhan o weithgareddau Cymraeg. Does dim angen unrhyw sgil flaenorol. Byddwn yn eich annog a'ch cefnogi i ymarfer y grefft o gyfieithu mewn cyfarfodydd cymunedol yn eich ardal chi. Ar ddiwedd y ddau ddiwrnod fyddwch chi ddim yn gyfieithwyr ond gobeithio y byddwch wedi cael digon o hyder i roi cynnig ar gyfieithu, sylwebu neu grynhoi ar gyfer unigolion di-Gymraeg mewn gweithgareddau cymunedol.

Cwblhewch a dychwelwch y bonyr isod a'i ddychwelyd mor fuan a phosib i :

Ellen ap Dafydd, Mantell Gwynedd, Yr Hen Orsaf Heddlu, Y Lawnt, Dolgellau, LL40 1SB
☎ 01341 422575 ☎ 01341 422147 E-bost - EllenapDafydd@mantellgwynedd.com
☎ 01286 672626 ☎ 01286 678430 E-bost - EllenapDafydd@mantellgwynedd.com

-Sylwebu / Cyfieithu ar y pryd 13 & 17 Mai 2010 (4.30 - 7.30 yr hwyr)

Enw:.....

Mudiad:.....Cyfeiriad:.....

☎:..... E-bost

Nodwch unrhyw anghenion ychwanegol (e.e. diet, print bras, anabledau, ayb)

● Priodasau ● Dathliadau

● Achlysuron Arbennig ● Cynadleddau

● Pwyllgorau ● Bwydlen Bar

THE LEGACY
ROYAL VICTORIA HOTEL
LLANBERIS

with droed yr Wyddfa

Ffôn: 0844 411 9003

CHWARAEON

TLWS YR ECO 2010

Ydy, mae'n amser y chwysu unwaith eto. Yn anffodus bydd yn rhaid gwneud newidiadau i'r trefniadau eleni. Oherwydd y rheolau ynglŷn â 'chystadleuaeth' i rai dan 7 a'r ffaith mai pedwar pob ochr yw'r timau, fe fuasai'n afresymol mewn ardal mor eang i drefnu eleni. Tristwch i mi yw hyn o gofio llwyddiannau nosweithiau cyffelyb. I geisio ateb y gofyn rwyf am drefnu cystadleuaeth dan 8 yn gyfyngedig i Flwyddyn 3 yn yr Ysgol. I geisio helpu yr ysgolion/clybiau a niferoedd llai gellir cael carfan o 8 ond y gêm gyda 6 chwaraewr ar y cae.

Bydd yr oeddrannau dan 9 a dan 11 yn mynd ymlaen fel arfer. Cynhelir y gystadleuaeth dan 9 eleni yn Llanberis. Yn anffodus mae'r cyngor eisoes wedi gwneud eu gwaith ar Y Bwthyn felly ni all tîm Deiniolen -11 amddiffyn eu coron ar eu tir eu hunain. Diolch i glwb Bethel am eu cefnogaeth barod ar gyfer yr

oedran yma.

Diolch hefyd i Catrin Jones, Ysgol Llanrug, am gytuno unwaith eto i drefnu y gystadleuaeth bël-rwyd. Bydd Catrin yn cysylltu â'r ysgolion ynglŷn â'r trefniadau.

Unwaith eto nid oes codiad yn y pris cystadlu, sef £10 y tîm. Gofynnir i bob tîm gysylltu â mi gyda'r enwau cyn gynted â phosibl, gan wneud unrhyw sieciau yn daladwy i Eco'r Wyddfa.

Yr wythnos i'w chadw'n rhydd yw MEHEFIN 21 i MEHEFIN 25.

Nos Lun 21/5: DAN 8 ar faes LLEWOD LLANRUG

Cystadlaethau Pêl-rwyd (Ysgol Llanrug/ Ysgol Brynrefail)

Nos Fercher 23/5: DAN 9 dan ofal clwb LLANBERIS

Nos Wener 25/5: DAN 11 dan ofal clwb BETHEL

Edrychwn ymlaen am gemau cyffrous.

CLWB AR GYNNYDD



Aelodau Clwb Judo Caeathro

Mae clwb Judo Segontium/ Caeathro yn mynd o nerth i nerth. Yn ddiweddar bu nifer o blant ifanc y clwb yn cystadlu am y tro cyntaf. Cafwyd tipyn o lwyddiant a phlant balch iawn ddaeth adref gyda'u medalau. Sefydlwyd y clwb yn 2005 gan un o'r pentrefwyr yng Nghaeathro, sef Norman Hughes. Noson hyfforddi y clwb yw Nos Lun yng Nghanolfan y Capel yng Nghaeathro.

Mae merch Norman, sef Hannah, yn helpu gyda'r hyfforddi. Mae'r clwb yn hynod ffodus o gael gwasanaeth Hannah, oherwydd ei phrofiad o gynrychioli Cymru a

Phrydain mewn cystadlaethau rhyngwladol, yn cynnwys Gemau'r Gymanwlad.

Y bwriad o'r cychwyn oedd sefydlu clwb ar gyfer plant mewn ardal wledig a chynnig gwersi fforddiadwy i bawb. Mae pwyllgor wedi ei sefydlu er mwyn goruchwyllo pob peth ac mae'r clwb yn aelod o Gymdeithas Judo Cymru a Phrydain.

Erbyn hyn mae'r clwb wedi cynnig cyfle i nifer helaeth o blant ymgymryd â'r gamp ac mae canran uchel o 'judoka' wedi bod yn aelodau ffyddlon.

Disgwylir i'r plant weithio yn ddygn a dysgu hunan barch a pharch at eraill. Amcan

TREIATHLON HARLECH



Owain Jones yn ennill yr Adran Ienenctid

Mae'r gystadleuaeth hon wedi hen ennill ei phlwyf bellach, ac yn denu cystadluwyr o bob rhan o Brydain. Yn ystod mis Mai daeth dros 400 ohonynt i Harlech i herio cwrs arbennig o galed. Roedd nifer dda o fechgyn lleol yn gobeithio am lwyddiant, yn enwedig yn adran yr ieuencid.

Golygai godi cyn cŵn Caer i'r ymgeiswyr, gyda'r nofio yn cychwyn am hanner awr wedi saith yn y bore! Roedd angen nofio 400 metr o'r pwll, yna beicio 30 cilometr ar hyd arfordir Meirionnydd, a diweddu gyda rhedeg 6.5 cilometr ar draws twyni tywod Morfa Harlech cyn dringo'r allt serth i orffen ger y castell.

Roedd Owain James o Ddeiniolen yn un o'r rhai cyflymaf allan o'r pwll, gydag amser o 5 munud a 27 eiliad - dim ond 3 eiliad yn arafach na Rhian Roxborough, sy'n aelod o dim Triathlon Prydain. Camp arbennig i fachgen 16 oed sy'n ddisgybl yn Ysgol Brynrefail. Dim ond Rhian ac un arall a nofiodd yn gynt nag ef. Roedd Dafydd Williams o Lanberis hefyd yn un o'r rhai cyflymaf

allan o'r dŵr, gydag amser o 6 munud a 3 eiliad, yn cael ei ddilyn gan ei fab, Henri, sy'n ddisgybl yn Ysgol Dyffryn Ogwen.

Yn yr ail gymal, roedd Iwan Morton o Gwm y Glo a Dafydd Williams yn agos iawn o ran amser, gyda deugain eiliad yn unig yn eu gwahanu. Daeth tsaen beic Owain i ffwrdd ac achosodd hynny iddo golli amser gwerthfawr. Roedd Henri wyth eiliad yn gyflymach nag ef, a'r ddau lefryn 5 munud y tu ôl i Iwan a Dafydd.

Iwan Morton oedd y cyflymaf ohonynt ar y cymal olaf; funud ar y blaen i Dafydd a oedd funud arall ar y blaen i Owain a Henri. Ac ar ôl yr holl ymdrech enillodd Owain yr adran ieuencid gan ddod yn 35ain allan o 400 yn yr holl ras. Enillodd Henri wobwr arbennig am y newydd-ddyfodiad gorau. Ar ddiwedd diwrnod caled o gystadlu, roedd Iwan Morton yn 14eg a Dafydd Williams ddau safle o'i ôl. Llongyfarchiadau calonnog i'r pedwar ohonoch, a diolch i Gwynfor James am anfon yr adroddiad a'r lluniau.

Onid nid y bechgyn oedd yn hawlio'r holl glod. Daeth Alison Donnelly o Ddinorwig yn uchel yn y rhestr, a thîm cyfnewid Berwyn Jones a'i ferch, Ceri Williams, hefyd yn gwneud yn dda. Ac yn ras Triathlon Y Waun ddiwedd Ebrill roedd Bridget Ripley yn 1af yn y categori i ferched dros 50 oed. Maent yn aelodau o Glwb Tri Padarn, ac yn cyfarfod yn rheolaidd yng Nghanolfan Hamdden Caernarfon bob nos Iau am 8.00. Mae croeso i'r rhai sydd â diddordeb i ymuno â hwy. Gyda diolch i Pat Jones am yr adroddiad.

Norman o'r cychwyn oedd i'r plant fagu hunan hyder er mwyn eu helpu o ddydd i ddydd, unai ar y maes chwarae neu yn yr Ysgol.

Os oes unrhyw un â diddordeb mewn ymuno, mae croeso iddynt alw draw i'r Ganolfan rhwng 6.00 ac 8.00 ar nos Lun er mwyn cael cipolwg ar y drefniadaeth. Yn anffodus oherwydd llwyddiant y clwb mae rhestr aros. Braf yw cael cronicle ymroddiad a llwyddiant clwb lleol.